# Y CARDI BACH
Papur Bro Dyffryn Taf

Cariad o beth Cardi Bach

Rhifyn 445 | Hydref 2023 | Pris £1


## ENILLYDD CENEDLAETHOL PROSIECT ADNEWYDDU CANOLIG

Wyn Davies, y Contractwr Adeiladu a Thoi o Login




Wyn Davies, ei gydweithwyr a'r teulu yn derbyn y wobr dros Gymru gyfan, hyn yn caniatau iddynt gynrychioli Cymru yn y rownd derfynol yn Llundain.

***Hoffai ardal y Cardi Bach longyfarch Wyn yn fawr ar ennill y wobr fawreddog hon. Camp ac anrhydedd enfawr, ac mae'n siŵr fod pawb oedd ynghlwm wrth y gwaith yn ymfalchïo'n fawr yn y prosiect.***

**Trosolwg o'r prosiect**
**Beth wnewch chi â neuadd ddawns o'r 1800au?**

Crewyd yr adeilad yn gyntaf, gan Arglwydd Henry o Gaerfaddon . Gwnaeth ei ffortiwn yn masnachu copr o ystad Alltyferin yn Llanegwad. Beth wnewch chi â neuadd ddawns o'r 1800au? Dyna wnaeth Wyn Davies, yr adeiladwr o Login, oedd ei thrawsnewid yn gartref newydd i deulu modern. Gan gadw'n driw i'r strwythur gwreiddiol a rhoi sylw blaenllaw i ymrwymiadau amgylcheddol cyfoes, gweithiodd y tîm yn agos gyda'r cleient a'r pensaer o'r cam dylunio a'r astudiaethau ymarferoldeb i'r cam caniatâd cynllunio ac adnewyddu'r eiddo.

## Aelwyd Hafodwenog – Cwpan y Byd 2023

Ar noson olaf Eisteddfod yr Urdd Sir Gâr 2023, daeth y cyhoeddiad hollol annisgwyl mai Aelwyd Hafodwenog oedd wedi ei ddewis i gynrychioli'r Urdd a Chymru fel rhan o ddathliadau Cwpan Rygbi'r Byd yn Ffrainc ym mis Medi 2023. Lyon oedd lleoliad ein taith ar benwythnos gêm Cymru ac Awstralia ond roedd y gwaith perfformio wedi cychwyn cyn i ni deithio, gan berfformio i'r tîm yng ngwesty'r Vale yn Llantrisant cyn iddyn nhw adael am Ffrainc, ar raglen Jonathan ar S4C, a rhai diwrnodau cyn i ni deithio cynhaliwyd noson Bon Voyage i'r gymuned yn Nhafarn Beca, Trelech er mwyn i deulu a ffrindiau'r aelodau cael y cyfle i glywed ein repertoire a dymuno siwrne saff i'r aelodau.






Morio canu'n Ffrainc

**Y CARDI BACH**

| | |
|---|---|
| **Golygydd, Cadeirydd a Dosbarthwr** | Eurfyl Lewis 01994 419495 |
| **Is-gadeirydd:** | Iola Wyn 07870 100831 |
| **Ysgrifennydd**: | Beti Wyn James 01994 230966 |
| **Trysorydd** | Rosemarie Davies 01994 419005 |
| **Trysorydd y Clwb ‘200’:** | Rhian White 01994 231338 |
| **Cysodwyr:** | Wyn a Meirwen Evans 01994 448447 |
| **i’ch diddori** | John Arfon Jones 01994 240536 |
| **Cornel y Dysgwyr::** | Albie Abbott 01239 831641 |
| **Tudalen y Plant:** | Llinos Mair Thomas |
| **Llewyrch i’m Llwybr:** | Eurfyl Lewis |
| **Cornel Coginio:** | Winnie James-Phillips 01239 831754 |
| **Cornel Llên:** | Marian Glyn Thomas 01994 230121 |
| **Cornel Garddio:** | John Davies 01994 240059 |

Newyddion, Lluniau, Erthyglau a Hysbysebion i’w hanfon erbyn **10fed** o bob mis, drwy e-bost os yn bosib, i Meirwen Evans, Y Felin, Cwmfelin Mynach, Hendygwyn-ar-Daf, SA34 0DH.

e-bost: ycardibach@btinternet.com

Nid yw’r Bwrdd Golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a gyhoeddir yn Y Cardi Bach.



Argraffwyd gan:Gwasg Aeron Cyf. Aberaeron. 01545 571115

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru’.


# Colofn y Mis

*gan Iola Wyn, San Cler*

Mae’n dymor yr hydref mwyn arall a’r dillad haf yn dal yn y prif gwpwrdd yn ein **tŷ** ni. Mae yna fanteision amlwg wrth gwrs - does dim angen gwresogi’r cartref sy’n golygu bod modd arbed tipyn o arian ar filiau nwy neu olew. Ond wrth gwrs, wrth i’r haul cynnes dywynnu, mae’r borfa yn tyfu a’r angen i dorri’r lawnt yn parhau am rai wythnosau yn ychwanegol, ac mae angen tanwydd neu drydan ar y peiriant torri gwair.

Ac eleni, yng nghanol mis Medi, bu’n rhaid agor y ffenestri yn ystod ton o dywydd twym. A dyna beth oedd camgymeriad ! Mi fedrai ddioddef ambell bryfyn yn hofran uwch fy mhen, a chwarae teg i’r creaduriaid swnllyd hynny, mae ganddyn nhw ddigon o synnwyr cyffredin i hedfan yn ôl allan drwy’r ffenestr.

Nid felly ystlumod! Daeth gwaedd am un y bore, a’r mab yn sgrechian fod rhywbeth wedi glanio ar ei wyneb tra’n cysgu. O sbecian, fe ddaeth hi’n amlwg fod y creadur yn cuddio oddi fry ar drawstiau’r nenfwd, cyn iddo gynhyrfu a hedfan yn wyllt i bob twll a chornel. Fe agorwyd pob ffenestr ar dop y grisiau ac fe gaewyd pob drws ystafell wely, a chysgu llwynog fu hi y noson honno.

Erbyn y bore, doedd dim son am yr ystlum, ac mi roedd hynny yn dipyn o ryddhad. Ond wrth gwrs, dyw ystlumod ddim yn hoff o oleuni, ac erbyn y noson ganlynol, daeth hi’n amlwg fod y creadur bellach yn denant – roedd e yn dal yn y **tŷ,** ac wedi drysu’n lân.

Gyda thywel dros fy mhen (gan fod cyd-weithwraig wedi dweud wrthai fod ystlumod yn hoff o ludo eu hunain at wallt hir !) fe ymdrechais i agor y ffenestr unwaith yn rhagor. Ond ar ôl oriau o’i wylio, a finne’n edrych fel mwy o fat na’r ystlum, bu’n rhaid ildio a chau drws pob ystafell wely eto.

Erbyn y noson ganlynol, doedd dim siw na miw, a daethom i’r casgliad bod yr ystlum bach bywiog o’r diwedd wedi gweld y goleuni, ac wedi hedfan allan drwy’r ffenestr.

Ac yna fore echdoe fe neidiais allan o ‘nghroen unwaith eto yn yr ystafell ‘molchi yn clywed **sŵn** fflapio mawr uwch fy mhen unwaith yn rhagor. Cyn estyn am y tywel unwaith eto, mentrais edrych i fyny a gweld taw iar fach yr haf, neu bili pala neu löyn byw oedd yno. Tybed a oes yna greadur arall dywedwch sydd â thri enw yn Gymraeg ?!

Oes, mae arwyddion clir fod ein tymhorau yn newid. Ac mae’n dod â’i heriau i bob un ohonom, boed yn fod dynol sy’n ceisio cysgu’n dawel gyda’r nos, neu ystlum sy’ methu’n lan â gweld ffenestr agored.

---

## HOELION 8 YN 50 OED

Y mae Cymdeithas Hoelion 8 yn dathlu 50 mlynedd. Fel rhan o’r dathliadau fe’ch gwahoddir chi i ymuno gyda ni mewn noson o adloniant a chymdeithasu ar nos Wener 17eg o Dachwedd, i ddechrau am 7.30yh., yng Nghaffi Emlyn, Tanygroes. Bydd bwyd ar gael ar y noson a ceir adloniant gyda Parti Camddwr, o ganolbarth Ceredigion. Llywydd Anrhydeddus y noson fydd Mr John Davies, Y Graig, un o sylfaenwyr Hoelion 8 ardal Aberporth. Bydd unrhyw elw a wneir yn mynd tuag at Sefydliad DPJ.

Gellir cael tocynnau, £7 yr un, wrth aelodau Hoelion 8 yn eich ardal, wrth Caffi Emlyn Tanygroes neu wrth Eurfyl Lewis ar 07980 883924.

## GOHEBWYR LLEOL


ALMA: Margaret Evans 01994 230761

BANCYFELIN: Merle Jones 01267 211300 eleanormerle@icloud.com

CAPELI BANCYFELIN a CANA Parch, Beti-Wyn James beti.wyn@icloud.com

BLAENWAUN: Tegwen James 01994 448223

CAPEL MORIAH (Blaenwaun) Meinir Eynon 01437 563540 meinireynon@gmail.com

CEFNYPANT: Valerie Davies 01994 448475 vdavies55@outlook.com

CLUNDERWEN: Lynys Davies 01437 563319 mam_dadbox@yahoo.co.uk

CWMBACH: Jane Evans 01994 448790 teulujames@btinternet.com

CWMFELIN MYNACH: Nansi Evans 01994 448392

EFAILWEN: Angharad Booth Taylor 01994 419221 angharad.boothtaylor@btinternet.com

GELLIWEN: Peter Crowdie 01994 230033 peter.crowdie@btinternet.com

HENDY-GWYN: Heather Jenkins 01994 240138 jenkinsh2809@gmail.com

(Newyddion Tabernacl) Y Parch. Guto Llywelyn 01269 851655 gutollywelyn@hotmail.com

HENLLAN - FALLTEG: Sian Jackson 01994 240981 jacksonfawr@btinternet.com

LOGIN a CWM MILES Meinir Eynon 01437 563540 meinireynon@gmail.com

LLANBOIDY: Norah Heseltine 01994 448241 sales@shwldimwl.com

LLANDYSILIO: Delyth Roblin 07882 639867 delythroblin@outlook.com

LLANGLYDWEN: Jill Lewis 01994 419495 jill.lluest@gmail.com

LLANGYNIN: Susan Phillips 01994 231066 siwperiw@gmail.com

MEIDRIM: Patsy Lewis 01994 230369 talarwen@hotmail.com

PENYBONT: Linda Davies 01994 484657 lindadavies02061955@icloud.com

PWLLTRAP: Beti Wyn James 01994 230966 betiwynjames@aol.com

RHYDYCEISIAID: Doreen Adams 01994 240581

RHYDWILYM: Eilir Davies 01994 419649 eilirtyrhos@btinternet.com

SAN CLER: Beti Wyn James 01994 230966 betiwynjames@aol.com

TRELECH: Alyson Harries 01994 484359 alysonharries@btconnect.com


# LLEWYRCH I'M LLWYBR

*gan Elonwy Phillips*

**20? - 30?**

Dwi'n siwr mae'r gair rwyf wedi ei glywed yn fwyaf aml dros y mis diwethaf ma yw ffordd, heol neu hewl, fel y mynnwch chi.

Hen arferiad oedd i alw dilynwyr Iesu Grist yn "Bobl y Ffordd", a bod rheidrwydd arnynt i gadw at y llwybr cul bob amser. Bob yn hyn a hyn wedyn, mi fyddech yn clywed am berson a fyddai yn ôl y dywediad "wedi colli'r ffordd". Gyda dyfodiad y "sat nav", y mapiau Google a threfnydd taith yr AA, mae bron yn amhosibl i'r teithiwr modern yn ei gar mawr i golli'r ffordd, a methu cyrraedd pen ei daith. Mae'n ffaith bryderus bod y niferoedd sydd yn dewis mynychu lle o addoliad ar y Sul yn lleihau yn gyflym. Beth yw'r rheswm tybed? Difaterwch? Diffyg diddordeb? Neu a oes na bobl am wahanol resymau yn colli'r ffordd.

Mae na stori hyfryd am Tom a Wil, yn eistedd ar fainc ym Mhontargothi rhai blynyddoedd yn ôl. A dyma gar yn dod ar ras o gyfeiriad Llandeilo, ac yn stopio'n sydyn, a'r gyrrwr yn holi yn ddi-amynedd a oedd e ar y ffordd gywir am Landeilo? "Odych, odych", medde Wil yn ei Saesneg gorau, "mae'r ffordd ma yn cysylltu Llandeilo a Chaerfyrddin". Rhyw ddiolch digon pitw gafodd Wil, cyn i'r car sgrechian ei ffordd i gyfeiriad Caerfyrddin. A dyma Dai yn troi at Wil a gofyn, "Pam na wnest ti adel iddyn nhw fynd i gyfeiriad Caerfyrddin, Llandeilo o nhw eisiau?" "Wnes i ddim o le ", medde Wil. "Fe ofynodd y dyn a oedd e ar yr hewl gywir am Llandeilo. Odd e ar yr hewl iawn, dim ond ei fod yn mynd i'r cyfeiriad anghywir!"

A dyma sydd yn digwydd heddiw i gynifer o bobl, efallai ein bod ar yr heol iawn, ond wedi colli cyfeiriad. Nid yw'r heol heddiw yn arwain cymaint o bobl i le o addoliad, ac fel canlyniad y mae na berygl i nifer ohonynt gau. Mae yr un peth yn wir am y dafarn leol. Lle o addoliad a'r dafarn oedd calon pentref, ac mae yn amlwg bod arferion pobl yn newid. Efallai mai ein bywydau prysur ni sydd yn gyfrifol. Yr ydym yn dueddol o ruthro o le i le, heb aros i feddwl i ba gyfeiriad mae'r heol yr ydym yn teithio arni yn ein harwain.

"Myfi yw y Ffordd, y Gwirionedd a'r Bywyd" oedd geiriau'r Iesu." Nid oes neb yn dyfod at y Tad ond trwof fi" Dyma'r unig arwydd ffordd sydd ei eisiau arnom ni i sicrhau ein bod ar y llwybr cywir bob amser.

Os clywch chi am rywun sy'n dweud eu bod nhw wedi colli'r ffordd, a wnewch chi eu hatgoffa mae nhw sydd ar goll a bod y ffordd yna o hyd!

Fe soniais i ar y dechrau bod cynifer o bobl yn siarad am y ffordd y dyddiau yma. Er eu bywydau prysur, a'r rhuthro o un lle i'r llall, ma nhw yn siarad am y ffordd. O, ie, nawr dwi'n cofio, nid oes modd rhuthro gymaint nawr. Fe aeth 30 milltir yr awr yn 20 milltir yr awr mewn cymaint o bentrefi. Efallai daw rhyw ddaioni o hyn wedi'r cwbwl, ac y bydd ambell deithiwr, yn arafu digon ac yn medru gweld "Y Ffordd" yn gliriach unwaith eto!

***DALIER SYLW***

**Rhifyn nesaf fydd rhifyn y Nadolig. Nid oes rhifyn i gael yn mis Tachwedd. Rhaid cael y newyddion, lluniau a chyfarchion Nadolig personol (gyda thâl o £5) a Hysbysebion Busnes erbyn Dydd Gwener, Tachwedd 17eg (fan pellaf).**

# Clonc a Phosau John Arfon

Blin iawn oeddwn o glywed fod Nantyffin wedi ei werthu ac na fydd yn westy o hyn ymlaen. Yn anffodus, methais gael y cinio Sul olaf yno oherwydd bod cynifer wedi archebu o'm blaen.

Bu Nantyffin ers blynyddoedd mawr yn ganolfan i'r holl gymuned, ac yn fan delfrydol iawn i giniawa a chynnal cyngherddau ac unrhyw weithgareddau neu achlysuron eraill yn yr ardal. Bu'r Cardi Bach am sawl blwyddyn yn cynnal eu Cyngerdd a Noson y Raffl Fawr yno, gyda'r lle dan ei sang, a chai pawb groeso arbennig yno bob tro.

Hoffwn ar ran yr holl ardal ddiolch o waelod calon i Emrys, Anne a'r teulu, ac hefyd yr holl staff a fu'n gweini yno, am eu gwasanaeth clodwiw dros yr holl flynyddoedd. Dymunwn pob iechyd a dymuniadau da iddynt yn eu hymddeoliad.

---

Bum am ychydig o wyliau gyda Les Evans, ffrind da iawn imi o Langynin) i Blackpool gyda Chwmni ardderchog Bysiau Cwm Tâf. Roedd y bws bron yn llawn a chafwyd cwmni delfrydol, hwylus a chyfeillgar yno. Roedd Gwesty Adelaide yn gyfforddus iawn gyda bwyd da. Yn anffodus nid oedd y tywydd yn rhy ffafriol ac er bod y gwynt yno yn nerthol, ni chawsom lawer o law. Aethom i'r Tower Ballroom ond nid oedd neb am ddawnsio gyda ni! Buom ar nifer o dripiau ond yr uchafbwynt oedd trafaelio fin nos ar hyd y Filltir Aur i weld y goleuadau mae y dref yn enwog amdanynt.

---

Mae'n anodd credu fod blwyddyn wedi mynd heibio ers marwolaeth y Frenhines Elizabeth. Ond anoddach byth, yw credu mai ar y Llun cyntaf o Fedi, 60 mlynedd yn ôl, roedd "Sprog o'r Gog" wedi dod i ddysgu Mathemateg yn Ysgol Ramadeg Hendygwyn. Wedi'r holl flynyddoedd 'Rwyf yma o hyd', chwedl Dafydd Iwan. I ble mae'r amser wedi mynd dywedwch?

Rwyf am geisio rhoi braslun o'r diwrnod cyntaf hwnnw yn yr ysgol. Ymddiheuraf os oes unrhyw wall neu gamgymeriad, a byddaf yn ddiolchgar ichwi os gwnewch fy nghywiro.

Cofiaf gerdded i mewn ychydig yn nerfus i'r ystafell staff y bore hwnnw. Nid oedd yn ystafell fawr ond roedd yn llawn sŵn a mwg sigarennau. Yn eistedd wrth ddesg a hen deipiadur o'i blaen roedd Ray Evans, merch ifanc olygus o San Cler. Ar ei hochor dde roedd tsiaen hir yn hongian o'r nenfwd ac wrth dynnu hon canai cloch i alw'r plant i'w hystafelloedd. Yna aeth cloch arall a heidiodd y staff a'r plant i'r neuadd. Wedi eistedd ar y llwyfan, o'm blaen ac i'r chwith roedd y bechgyn yn eu crysau gwyn, trowsusau llwyd, a'i siwmperi nefi gyda bathodyn yr ysgol ac arwyddair "I Fyny fo'r Nôd" arno. Ar yr ochr dde roedd môr o flowsus coch y merched. Cefais wybod fod bron i 400 o ddisgyblion yn yr Ysgol. Wedi'r gwasanaeth boreol, croesaswodd y Prifathro T. Trevor Thomas (dyn tal, gweddol denau, un llym iawn yn ei ddisgyblaeth ond eithaf teg gyda'i staff) y plant newydd i'r ysgol, gan roi rhybudd iddynt sut i ymddwyn. Yna cyflwynodd iddynt ddau aelod newydd i ymuno â'r staff sef Ruby Evans o Abergwili a minnau o Lanrwst, Dyffryn Conwy. Yna canwyd Cân yr Ysgol; "Nyni o Siroedd Dewi a Hywel Mawr ei Glod" ar dôn wedi ei chyfansoddi gan cyn ddisgybl yr Ysgol, William Mathias.

(Os hoffech, efallai y cewch mwy o hanes y mis nesaf.)

---

**Dyma atebion Mis Medi**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| X | O | X | X | O | O |
| O | X | O | O | X | X |
| X | X | O | X | O | O |
| X | O | X | O | O | X |
| O | X | O | X | X | O |
| O | O | X | O | X | X |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 8 | 3 | 7 | 1 | 4 | 2 | 9 | 5 | 6 |
| 6 | 9 | 2 | 3 | 5 | 7 | 1 | 4 | 8 |
| 4 | 5 | 1 | 9 | 6 | 8 | 3 | 2 | 7 |
| 5 | 6 | 4 | 8 | 2 | 1 | 7 | 3 | 9 |
| 2 | 7 | 8 | 6 | 3 | 9 | 5 | 1 | 4 |
| 3 | 1 | 9 | 4 | 7 | 5 | 8 | 6 | 2 |
| 9 | 8 | 6 | 5 | 1 | 4 | 2 | 7 | 3 |
| 7 | 4 | 5 | 9 | 2 | 3 | 6 | 8 | 1 |
| 1 | 2 | 3 | 7 | 8 | 6 | 4 | 9 | 5 |

**Dyma ddau bôs i'ch dyfyrru mis yma. Dylech wybod y rheolau erbyn hyn**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| O | | | X | | |
| | X | | | | |
| X | | X | | | X |
| | | | | X | |
| | | | X | | |
| | X | X | | | O |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | 1 | | | |
| | | | | 2 | | | | 6 |
| | 8 | | 7 | | | 2 | 9 | |
| | | 9 | 4 | | | 8 | 3 | |
| 6 | | | 3 | 5 | | 9 | | |
| | | 4 | | | | | 5 | |
| 2 | 3 | | | | 8 | | | |
| | | 6 | | | 2 | | | |
| 4 | 5 | | | | | | | 2 |

**Dyma atebion posau mis Medi**

Yn gyntaf ymddiheuraf am y camgymeriad yng nghliw 5 ar draws. Dylwn fod wedi dweud "Nifer o bwysi mewn 2 dunnell".

**(A)** Y croesair rhifau

Ar Draws. 1) 114, 4) 1953, 5) 4480, 6) 758

I Lawr. 1) 1945, 2) 1588. 3) 4530.

**(B)** Y croesair mawr.

**Ar Draws**. 1. Degwm 4. Tywallt 9. Ymfudwr, 10. Rwber 11. Oedi, 12. Diflasu, 13. Dau, 14. Taro, 16. Eifl, 18. Cwn, 20. Parablu,

**I Lawr**. 1. Dwyfol, 2. Gofid, 3. Medi, 5. Y Dref Wen, 6. Arbrawf, 7. Tirlun, 8. Credu, 13. Dosbarthu, 15. Aur a Thus, 17. Epilio, 18. Cuddio, 19. Dagrau, 22. Tad-cu, 23. Mellt.

**Y pôs y mis hwn** yw datrys y cliwiau i ddarganfod enwau merched e.e. Gwraig Dylan fyddai Caitlin, a'r ferch a gysylltir gyda Pwyll, fyddai Rhiannon. Pob hwyl ichwi gyda'r dasg, mae yn weddol rhwydd.

**Dyma'r cliwiau**

1. Merch Llŷr.
2. Modryb Hogiau Llandegai o Chicago.
3. Roedd hi'n werth y byd i gyd i'r Tebot Piws.
4. Hoff ferch Joseph Parry.
5. Emynyddes enwocaf Cymru.
6. Roedd merch hon yn y gân werin.
7. Un fawr o Drelech.
8. Cân boblogaidd T.J.
9. Llyfr (10 pennod) o'r Hen Destament.
10. Un fach aeth i olchi er mwyn cael dillad glan.
11. Bu'n brwydro'r Normaniaid pnd lladdwyd hi yng Nghydweli.
12. Roedd hon yn gannwyll llygad El Bandito.
13. Tyfai meillion yn dilyn ei cherddediad yn ôl y chwedl.
14. Gwraig arweinydd y Blaid Geidwadol rhwng 1997 a 2001.
15. Drama Saunders.
16. Ffrind Sion Blewyn Coch.
17. Partner canu gwlad Andy
18. Santes y cariadon
19. Blodyn cyntaf y Gwanwyn.
20. Tymor y ferch hon.
21. Y ferch o Penygelli gymerodd ffansi Bob Tai'r Felin.

22. 23. 24. 25. Gweinyddesau Caffi Gaerwn.

## Clwb 200

d/o Rhian White, Garnwen, Llangynin, San Clêr, SA33 4JZ
Rhif ffôn: 01994 231338
e-bost: rhian-white1@hotmail.co.uk

Annwyl ddarllenwyr,
Gobeithio eich bod i gyd yn cadw'n iach ac yn ddiogel. Mae tymor yr Hydref yma a'r nosweithiau'n cau i mewn. Hyderwn y cawn haf bach Mihangel i fyrhau'r gaeaf. Mae'r misoedd yn gwibio heibio a nwyddau'r Nadolig yn ein siopau ers wythnosau bellach.

Diolch i'r isod am ymaelodi'n ddiweddar:-

Beryl Thomas, 1 Isfryn, Llangynog.
Iorwerth a Rhiannon Davies, Pencerrig, Efailwen.

Llongyfarchiadau i enillwyr fis Medi:-
£20 - 34 Jerry Williams a'i Feibion, Cloth Hall, Llanboidy
£10 - 320 Susan Davies, Maes y Werin, Llanboidy

Diolch i chi gyd am eich cefnogaeth i'r Cardi Bach ac i'r Clwb 200.

Cadwch yn ddiogel,

*Rhian*

TAF
AMSER AGOR
Llun - Gwener 7- 5.30
Sadwrn 7-12.00

**MASNACHWYR ADEILADU**

**Iard yr Hen Orsaf**
Heol yr Orsaf, San Clêr

Ffôn: 01994 230239
Ffacs: 01994 232772

# Cornel Llên *gan Marian Glyn Thomas*

Wn i ddim amdanoch chi ond fe fydda i'n mesur llwyddiant gwylie yn nôl y nifer o lyfrau ces i'r cyfle i'w darllen – a'r boddhad a gafwyd wrth wneud hynny wrth reswm. Eleni ces falconi ar fordaith wythnos o amgylch ynysoedd Groeg a dyddiau braf - wel rhai o leia' - mewn carafan ym Mhenbre gyda phentwr o destunau amrywiol.

Yn gyntaf *Pridd* gan Llŷr Titus a enillodd llyfr y flwyddyn a dyma'r pinacl o ran yr ysgrifennu coeth, barddonol bron, yn darlunio byd hen ŵr ar draws y pedwar tymor. Cyfrol i'w thrysori a'i hail ddarllen. Ces gyfrol Jane Aaron am *Cranogwen* yn anrheg gan gyfnither a hynny adeg dadorchuddio'r gofeb i'r arwres hon o Langrannog. Dyma chi wraig o flaen ei hamser a hynny am nifer o resymau. Cofiant wedi'i ymchwilio'n fanwl oedd y llyfr nesaf mewn gwirionedd er mai ar ffurf nofel yr adroddir hanes Silyn Roberts a'i wraig Mair yn *Arlwy'r Sêr* gan Angharad Tomos. Mae'r penodau yn pendilio rhwng llais Mair yn ei henaint a hanes cronolegol y ddau. Cefais fy rhyfeddu at flaengaredd a radicaliaeth y ddau yn nhridegau'r ganrif ddiwethaf a'm swyno gan eu stori garu hyfryd.

Methais â mynd i Foduan ond diolch i Jane yn Llawn Cariad, ces afael ar y testunau buddugol drannoeth eu cyhoeddi – nofel Alun Ffred - *Gwynt y Dwyrain* a enillodd y Daniel Owen. Dyma nofel dditectif rhwydd i'w darllen, y cymeriadau yn dod yn fyw a hynny'n bennaf trwy'r ddeialog llawn dywediadau bachog a'r hiwmor. Fel byddai rhywun yn ei ddisgwyl o'r awdur, ceir hefyd sylwebaeth graff ar gyflwr cymdeithas y fro Gymraeg Ac yna'r fedal ryddiaith - *Hallt* gan Meleri Wyn James, wedi'i lleoli yn Aberystwyth ac yn darlunio perthynas rhwng mam a'i merch sydd ag anghenion arbennig. Mae'r nofel hon hefyd yn pendilio rhwng llais dwy a'r dweud yn deimladwy, yn llawn anwyldeb. Dyma gyfrol arall a haedda ei hail ddarllen.

Cafodd Mari Emlyn gryn hwyl mi dybiaf yn dychanu'r byd llenyddol yn ei nofel fer, ffraeth *Llyfr y Flwyddyn* a'r prif gymeriad yn gwbl droëdig, yn ddarlun o ddyn ar ei waethaf a hynny wedi fy nghythruddo i'n ormodol braidd! Os am lyfr i'ch diddanu, darllenwch *Y Gwyliau* gan Sioned Wiliam, i'ch cludo i fila crand Elinor yn yr Eidal yng nghwmni cymeriadau sy'n ddigon rhagrithiol i gwyno am dai haf yng Nghymru fach! Ceir sylwebaeth ar berthynas gŵr a gwraig yma hefyd – felly hiwmor, dychan ac empathi yn cyfuno mewn cyfrol ddifyr tu hwnt.

Llyfr y flwyddyn i mi – na chyrhaeddodd y rhestr fer hyd yn oed – yw hunangofiant Cleif Harpwood, ***Breuddwyd Roc a Rôl***. I'r rhai ohonoch sydd o'r un oed â mi, mae'n adrodd hanes ei fywyd a chyfnod fy mywyd innau – o'i fagwraeth yn Aberafan i'r profiadau dyrchafol yng nghyfnod Edward H, yr ymgyrchu adferol yn Nerwen-gam ac adegau gwirioneddol heriol ei fywyd gyda gonestrwydd eithriadol a hynny yn nhafodiaith Cwm Afan. Mae hanes dirywiad bywyd diwylliannol a Chymraeg y Cwm yn ingol. Bues yn gweithio yng nghegin Gwersyll Llangrannog yn ystod gwyliau haf fy ieuenctid am bump haf yr un pryd â Cleif– yn drewi o saim sglods – ond ches i ddim mensh chwaith! - ond y cyfan yn dwyn atgofion hapus ac arddull yr ysgrifennu yn fy marn i yn gampus.




WYN DAVIES a'i FRODYR
ADEILADWYR
Golygfa'r Cwm
Ffynnonwen
Login
Hen Dŷ Gwyn ar Daf
Ffôn. 01437 563300



IFAN DAVIES
Saer Coed



Blaenwern
Clunderwen. SA66 7XA
07875 540469



W.J. KENNETH DAVIES
ei Feibion a'i Ferch
SEIRI COED
a
THREFNWYR ANGLADDAU
Blaenwern, Clunderwen
Ffôn: 01437 563319

*parhad o dudalen 1*



Michael Williams, Nick Knowles, Wyn Davies a Rhys Davies yn derbyn y darian am y cynnig gorau o fewn y Deyrnas Unedig.
Mae Matthew John Williams yn absennol.

Uchafbwyntiau a nodweddion rhagorol y prosiect.
Roedd gan y neuadd ddawns sawl nodwedd unigryw a adnewyddwyd, gan gynnwys:-

- Newid fentiau gwreiddiol yn y to yn oleuadau to cadwraeth
- Newid y galeri'n gyntedd mawr
- Troi'r staer wreiddiol yn staer dderi grom
- Troi'r lle tân gwreiddiol yn lle tân dau ochrog modern
- Troi'r neuadd ddawns lan lofft yn lle byw agored
- Adnewyddu'r gwaith cerrig gyda sawl agoriad ffenestr newydd - yn cynnwys mynedfa deri newydd
- Ailadeiladu drysau a ffenestri pren gwreiddiol drwy waith coed ynni-effeithlon.

**Goresgyn heriau**
Roedd adnewyddu'r nodweddion gwreiddiol tra'n creu cartref modern o fewn cyllideb gymharol fach yn her. Trefnodd y tîm weithdai gyda'r pensaer a phartneriaid cyflenwi i adolygu dyluniadau a gwneud gwaith peirianneg oedd yn rhoi gwerth am arian, er mwyn sicrhau bod y prosiect yn cadw o fewn y gyllideb.

**Gair gan y beirniaid**
- "Gorffeniad a chrefftwaith o safon hynod dda sy'n golygu gall y genhedlaeth nesaf wneud defnydd unwaith eto o'r hen adfail hwn."
- "Roedd yr adeiladwr yn gydweithredol ei ddull, gan gyfuno arbenigedd lleol â chydlynu gwych gyda'r rhanddeiliaid."

***Dyma gyfieithiad Aled Eynon o erthygl a luniwyd gan Master Builders yn dilyn llwyddiant Wyn Davies yn y categori uchod yng Ngwobrau'r Federation of Master Builders.***

ARWYDDION A DYLUNIO
BOOMERANG
SIGN & DESIGN
01239 832 014
sales@boomerang-signs.co.uk
UNED 11A, PARC GWYNFRYN,
CRYMYCH, SIR BENFRO

CBS
CRYMYCH
ADNODDAU ADEILADU
Uned 7A, Parc Gwynfryn,
Crymych. SA41 3RQ
Ffôn: 01239 831444

COLIN JOHN
Llewelyn Davies
Cyfrifwyr Siartredig
Hendygwyn
01994 240254
www.llewelyndavies.co.uk




Adrian Llewellyn
Groundworks Cyf

Dros 30 mlynedd o brofiad yn clirio daear
Gwasanaeth proffesiynol cyflawn
Pob agwedd o waith concrid i'r fferm
Gosod pibau a chebl
Ffensio, tirlunio, draenio
Llwynhelig, Llandysilio, Clunderwen
Ffôn / Ffacs: 01437 563425

HUW OWEN
CLUDIANT

Rhydymoch
Llandysilio
Clunderwen
Sir Gaerfyrddin
SA66 7UR
☎: 01437 563725 • 07798 885305

CWMNI PEIRIANNEG
HENDYGWYN AR DAF CYF.
(WHITLAND ENGINEERING LTD.)
GWAITH HAEARN O BOB MATH
SEFYDLU · ADEILADU · WELDIO
ARBENIGWYR YNG NGWAITH
HUFENFEYDD A BRAGDAI
GWAITH CYNNAL A CHADW
Uned B
Heol y Gorllewin
Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 240442
Ffacs: 01994 240937


# MERCHED Y WAWR

## Merched y Wawr – Cangen San Cler

Croesawyd pawb i'r cyfarfod yn Yr Hen Ysgol gan y Llywydd, Annalyn, ar Nos Fawrth, Medi 12fed.
Croesawyd dwy aelod newydd: Eirwen a Janet.
Llongyfarchwyd Nia ar enedigaeth ei ŵyr, Noa. Llongyfarchwyd Lilwen ar ddod yn 2il ar y trefniant blodau yn y Sioe Fawr. Llongyfarchwyd (trwy Joan) Bethan Picton-Davies ar gael ei hurddo'n is-Lywydd y Mudiad. Llongyfarchwyd Jo am fod yn un o siaradwyr y Penwythnos Preswyl.
Cydymdeimlwyd â Margaret Bowen ar golli brawd a chwaer yng nghyfraith a chyfnither â Rhian White ar farwolaeth ei thad yng nghyfraith.
Dymunwyd penblwydd hapus i Nest a Beti a fyddant yn dathlu eu penblwyddi yn ystod y mis.
Diolchwyd i bawb a fu'n helpu ar stondin MyW yn Eisteddfod yr Urdd a Lilwen am drefnu a gosod y blodau ar y stondin.

Cafwyd hanes taith Merched y Wawr i Sempringham gan Iona, Beti-Wyn a Lilwen a dangoswyd lluniau ar y sgrîn. Roedden nhw wedi cael profiad bythgofiadwy yn ymweld â chofeb y Dywysoges Gwenllian a chlywed cerddi a chanu anthem y Mudiad a'r Anthem Genedlaethol yno ac yn yr Eglwys. Bu yn benwythnos arbennig iddynt.

Mwynhawyd cwpaned o de a chacennau hyfryd a baratowyd gan Sue o'r Hen Ysgol. Rhoddwyd y wobr raffl gan Lilwen ac fe'i henillwyd gan Rhian Williams.





Ar ddydd Sadwrn, Hydref 7fed bu'r aelodau yn ymweld ag Amgueddfa Caerfyrddin yn Abergwili. Wedi mwynhau cymdeithasu dros goffi, cafwyd bore diddorol yn gweld yr arddangosfeydd yn yr amgueddfa. Bu diddordeb mawr ym Mwthyn Penrhiwbeili gyda rhai yn cofio'r deiliad olaf, Elsa Evans, yn byw yno. Hyfryd hefyd, oedd cael gweld llun Verrocchio "Tobias a'r angel" sydd ar fenthyg o'r Oriel Genedlaethol yn Llundain. Wedi cinio blasus bu nifer yn mwynhau wrth gerdded o gwmpas y gerddi. Diwrnod hyfryd, diolch i Rhian am drefnu.

## Cangen Gronw

Croesawodd Meinir Eynon pawb i dymor newydd o weithgareddau ar brynhawn Iau, Medi 29ain a llongyfarchwyd Tegwen ac Irene ar gyrraedd eu penblwydd yn naw deg oed. Darllenwyd llythyr o ddiolch wrth Tegwen am y blodau a diolchwyd i Wenfys am y trefniant. Dosbarthwyd rhaglen y flwyddyn; diolchwyd i Meirwen am ei hargraffu. Diolchwyd hefyd i'r ddwy ysgrifennydd am eu gwaith o'i threfnu. Bu Meirwen yn casglu aelodaeth ac yn cynnig cardiau Nadolig i'r aelodau.
Mynychodd Meirwen a Tegwen y pwyllgor Rhanbarth. Soniodd Meirwen am gystadlaethau y Ffair Aeaf a chystadleuaeth cynllunio cerdyn Nadolig am 2024.

Cyflwynodd Meinir y wraig wadd sef Bethan Picton Davies Is- Lywydd Cenedlaethol Merched Y Wawr. Mae yn perthyn i Gangen weithgar Ffynnongroes a newydd orffen swydd fel Llywydd Sir, Rhanbarth Penfro. Mae nawr yn ddechrau ei swydd fel Is-lywydd Cenedlaethol, swydd dwy flynedd ac yn dilyn bydd yn ymgymeryd â Swydd y Llywydd. Clôd mawr iddi a braint i ni fel cangen oedd ei chael i agor y tymor newydd o weithgareddau.

DAVIES
CWMNI ADEILADWAITH
Contractiwr Adeiladau Amaethyddol
Llogi Peiriannau
Arbenigwr mewn gwaith concrid
Parlyrau Godro • Iardiau Concrid
Paneli ac Estyll Concrid
Cysylltwch â Wyn Davies
Fferm Blaenwaun, Hebron, Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 419720 / 07791 168326

DAVIES
Y GWRES
A'I FERCHED
Plymio a Gwresogi
07792 947227
ebost: hyweldavies65@gmail.com

T. D. LADD
a'i Gwmni
SIOP NWYDDAU HAEARN
Belle Vue
Clunderwen
Ffôn: 01437 563217

Mae Bethan yn wraig amryddawn iawn, gwraig fferm, yn fam i ddau o blant ac yn famgu balch i Ioan. Er ei bod wedi gweithio tipyn tu allan i'r fferm, mae'n dal i hoffi godro a helpu gyda'r lloia. Gwnaeth olrhain ei phrofiadau eang gyda mudiadau fel y Ffermwyr Ifanc yr Urdd a'r capel. Roedd wastad yn barod i fod yn aelod o unrhyw gymdeithas trwy gyfrwng y Gymraeg. Y cyfan hyn wedi rhoi sail yw chymeriad. Ar ôl ysgol gwnaeth gwrs lletygarwch i helpu gyda'r busnes ar fferm ei rhieni. Yna gwnaeth gwrs cyfrifiaduron a bu yn diwtor gyda Sir Benfro. Penderfynnu gwneud grâdd wedyn mewn cyfrifiaduron a derbyn swydd, o ugain mlynedd yn dysgu Technoleg Gwybodaeth yn Ysgol Y Preseli. Yn dilyn hyn bu yn Swyddog Arholiadau am bum mlynedd yn Ysgol Aberteifi. Roedd ymuno â Merched Y Wawr yn gam naturiol iddi ac yn ffordd o ddod i adnabod pobl yr ardal wedi iddi briodi. Gwnaeth sôn am rai o uchafbwyntiau Cangen Ffynnongroes – ffilm drwy dwll bach y clo, fidio o'r ardal a'r llyfr lloffion. Mae yn aelod o bwyllgor cylchgrawn "Y Wawr" a byth a beunydd yn fodlon troi ei llaw at unrhyw gystadleuaeth. Hyfryd oedd ei hanes am ei phrofiadau fel Is-Lywydd. Tra bu yn rhoi ei hanes cyflwynodd luniau di-ri ar daflunydd mewn ffordd hamddenol a chartrefol.

Diolchodd Meinir iddi. Mae Bethan yn berson brwdfrydig a thalentog a mwynhawyd ei chwmni yn fawr iawn. Dymunwn pob lwc iddi yn eu swyddi gyda Merched y Wawr ac edrychwn ymlaen at ei hanes. Eirwen, Tegwen a Jane wnaeth drefnu'r te a raffl, ac fe'i henillwyd gan Meirwen.



Bethan Picton Davies yng nghwmni Mary a Meinir

# Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda



Ar fore Sadwrn 16eg o Fedi, a hithau'n Ddydd Owain Glyndwr, cynhaliwyd taith gerdded flynyddol Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda. Taith ddymunol iawn heb fod yn rhy heriol, yn dechrau yn Neuadd y Farchnad Llanboidy ac yn gorffen yno hefyd; taith gron o 4½ milltir wedi'i threfnu gan aelodau Capel Trinity Llanboidy.

Ymunodd pedwar deg o gerddwyr â'r daith, yr ifanca'n bedair oed a'r hynaf yn eu hwythdegau hwyr, heb anghofio'r ddau gi disgybledig iawn! Ar ôl cyrraedd y llinell derfyn, roedd gwledd yn ein haros yn y Neuadd, wedi'i pharatoi gan aelodau Capel Trinity. Diolch yn fawr i Gapel Trinity am y gwaith paratoi ac i bawb fu'n cymryd rhan yn y daith eleni eto.

Bydd yr arian a gesglir yn mynd at dri achos da – Tir Dewi, Beiciau Gwaed Cymru a Meddygfa Coach & Horses San Clêr – ac yn cael ei drosglwyddo i'r tri achos hwn mewn noson o Hwyl y Nadolig yn Neuadd Llanboidy ar Nos Wener, 1af Rhagfyr 2023 am 7.30yh. Artistiaid y noson fydd Corlan, Band Prês Wdig a chyd-ganu carolau wrth i dymor y Nadolig ddechrau. Bydd y tocynnau allan cyn bo hir, felly gwyliwch y gofod gan obeithio y byddwch yno!

Gofynnwn yn garedig i gynrychiolwyr y capeli neu unigolion anfon yr arian i'r trysorydd Tony Eynon erbyn 29ain o Hydref.

Preselistorage cyf.
Containers ar werth neu i'w llogi
Ffôn: 01834 860227 / 07969 343159
GORSAF BETROL PRESELI CYF.
Llanddewi Efelffre, Arberth SA67 7PD
ar agor 5y.b. - 10y.h. bob dydd
Olew dros Gymru Oil4Wales
LONDIS
01834 860227

R. M. JONES
CYFRIFYDD AC AMCAN-GYFRIFYDD
Bridge End House
Clunderwen
Ffôn: 01437 562185 / 07831 426456
e-bost: meurigj@hotmail.com

LLAWN CARIAD
Detholiad o anrhegion Cymraeg a Saesneg o safon
Ffôn: 07528 945287 / 07766 418843
Ebost: llawncariad@gmail.com
Facebook: Llawn Cariad
www.llawncariad.co.uk

# BLAENWAUN

**Moriah**
Diolch i Elonwy Phillips am ei gwasanaeth yng nghymun mis Medi. Cafwyd oedfa fendithiol.

**Taith Gerdded**
Bu rhai o’r aelodau a’u teuluoedd gerdded yn nhaith flynyddol Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda. Cafwyd amser difyr yn cerdded a chymdeithasu yn Neuadd Llanboidy. Diolch i’r rhai a gerddodd ar ran capel Moriah a diolch i aelodau Trinity Llanboidy am drefnu, ac am y wledd a’r croeso.

**Oedfa o Fawl** (Cylch y Gymanfa Ganu):
Hyfryd oedd cael gwasanaeth/dathliad arbennig o ganu yng Nghapel Nebo ar Sul,1af Hydref. Llywyddwyd gan y Parchg Gareth Ioan a chafwyd eitemau o ganu swynol gan blant Nebo. Roedd pob eglwys wedi dewis emyn allan o Caneuon Ffydd, gyda un aelod yn rhoi rhywfaint o gefndir a rhesymau am eu dewis. Bu yn ddathliad arbennig a chasglwyd swm derbyniol iawn tuag at Tŷ Hafan.

**Oedfaon:**
Hydref 22ain: Cwrdd Diolchgarwch am 2 o’r gloch, - Annalyn Davies.
Tachwedd 5ed: Oedfa 10.30 - Parchg Gareth Ioan.
Nodwch bod yr amser wedi newid.
Croeso cynnes i bawb.

Llongyfarchiadau i ddau o’n haelodau, Iori ac Eluned James, Pencraig, a ddathlodd eu priodas ddeiamwnt ar 12fed o Hydref. Carreg filltir arbennig. Iechyd da a phob hapusrwydd i’r dyfodol.

# CWMBACH

Gyda thristwch mawr y clywsom am farwolaeth John Davies o’r Eglwys Newydd, Caerdydd, gynt o siop Cwmbach, yn 72 oed. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â’i wraig Eiry a’r meibion Gruffudd, Llywelyn a Dafydd a’u teuluoedd. Hefyd, cofiwn am ei frawd David a’r teulu.

Ar ôl gadael Ysgol Cwmbach ac Ysgol Ramadeg Hendygwyn bu’n gweithio am ychydig yn y banc cyn prynu stiwdio miwsig a mynd ati i recordio. Roedd cryn ddiddordeb gyda John mewn miwsig a chwarae’r gitâr a bu’n aelod o’r grŵp Eliffant. Cynhaliwyd gwasanaeth i ddiolch am ei fywyd yng Nghapel y Wenallt, Caerdydd. Coffa da amdano.

**Jac Morgan**
Mae tipyn o falchder yn yr ardal gan i ni ddeall fod Jac Morgan, un o ddau gapten tîm rygbi Cymru, yn ŵyr i’r diweddar Elfed Thomas, Penrallt, Cwmbach gynt. Pob lwc i Jac ac i’r tîm ac ymhyfrydwn yn eu llwyddiant hyd yn hyn.

# LLANWINIO

**Swper Cynhaeaf**
Ar nos Wener, Hydref 6ed, cynhaliwyd Swper Cynhaeaf yn y neuadd gymunedol, a hynny dan nawdd Pwyllgor Adloniant Llanwinio. Croesawodd y cadeirydd Geraint Evans tua hanner cant o drigolion y plwyf at eu gilydd i fwynhau cymdeithasu, a chael pryd o fwyd blasus oedd wedi ei baratoi gan aelodau’r pwyllgor. Diolch i Lloyd a Eiddwen Howells am rostio’r mochyn.Yn ogystal, derbyniwyd nifer o wobrau raffl. Codwyd swm sylweddol tuag at osod diffribliwr yn Llanwinio. Diolchwyd i bawb a gyfranodd tuag at lwyddiant y noson ac edrychwn ymlaen i gynnal gweithgaredd eto yn y dyfodol.

# MEIDRIM

**Henoed:** Bu’r cyfarfod diwethaf yn Neuadd Ieuenctid Meidrim pan ddaeth plant Ysgol Meidrim i’n diddanu. Cawsom brynhawn hyfryd yn gwrando ar y plant yn mynd drwy eu gwaith. Diolchwyd iddynt gan Meirion Morris.
Ar Dachwedd 7ed bydd ein Cwrdd Diolchgarwch dan ofal y Parch Huw George. Wrth y te - Danny a Lynda Newton, Emrys Morgan a Jennifer Price.

# GELLYWEN

**Ainon**
Cynhaliwyd ein oedfa ddiolchgarwch ar nos Fawrth, 19eg o Fedi pan ddaeth cynulleidfa niferus atom yn cynnwys cyfeillion yr achos o sawl ardal. Diolch o galon iddynt i gyd am eu cefnogaeth.
Yr oedd yr oedfa yng ngofal y Parch. Huw George ac fe gawsom neges bwrpasol iawn ganddo yn ein atgoffa o bwysigrwydd o fod yn ddiolchgar nid yn unig yr adeg hon ond trwy gydol y flwyddyn.
Diolch o galon iddo, ac hefyd i Catrin am ein swyno

**C J Waste cyf.**
Carl Britton
01994 238367
07506 482007
cjwasteltd@yahoo.com
Prisiau ardderchog
Gwagio tanciau septig / carthbyllau
Britton Villa, Llangynin,
Sanclêr. SA33 4JZ

Carwyn a Sian James
J. K. Lewis a’i Fab
Glandy Cross.
SPAR
*Nwyddau di-ri ar gael gan gynnwys Petrol, Gwin a Chwrw, Glo, Tocynnau Trydan, Nwy, Loteri a phob peth fydd angen arnoch ar unrhyw achlysur.*
**Ar agor Llun i Sadwrn - 6.30 y.b. - 9 y.h.**
**Dydd Sul - 7 y.b. - 6 y.h.**
Ffôn: 01994 419230


G WILLIAMS
a’i FEIBION
Monumental Masons
SEIRI MEINI COFFA
Pentre Yard
San Clêr
Ffôn: (01994) 231390

unwaith eto gyda un o ganeuon enwog Dafydd Iwan.

Edrych ymlaen yn barod am ein Cwrdd Nadolig pan gawn y cyfle i'w chlywed yn canu unwaith eto. Gwnaed casgliad sylweddol tuag at Ambiwlans Awyr Cymru a byddwn yn anfon siec o £200 atynt. Diolch i bawb am eu cyfraniadau.

# SAN CLER

Dymunwn benblwydd hapus i Eileen Weston a oedd yn dathlu ei phenblwydd yn 70 oed ar Hydref 6ed.

**Cyflwyno siec i LATCH**




Bu Julie Arms-Williams a'i phartner, Peter Davies, yn ymweld ag uned cancr i blant, sef LATCH, yn yr Ysbyty Athrofaol, Caerdydd. Mae'r ddau wedi bod yn codi arian bob Nadolig ers sawl blwyddyn a hyd yn hyn, wedi codi bron i £12,000 – swm anrhydeddus yn wir. Maent i'w gweld yn y llun yn cyflwyno'u siec diweddaraf i lywydd LATCH. Dymuna Julie a Peter ill dau ddiolch o waelod calon i bawb am eu cefnogaeth a'u haelioni.

# PWLL TRAP

Dymunwn ymddeoliad hapus i Delyth Evans, Crud y Wawr, sydd wedi ymddeol ar ôl gweithio gyda Heddlu Dyfed-Powys am 44 o flynyddoedd.

Llongyfarchiadau i Sharon Griffiths, Maes yr Haf, ar ddod yn famgu. Ganwyd merch fach, Lili Wen, i Iwan a'i wraig, Beth, ar Awst 31ain. Gor-wyres i Eileen Thomas, Llys Hefin, San Cler.

**Bethlehem Newydd**

Cafwyd dwy oedfa hyfryd dan ofal yr aelodau, un ar Lyfr y Barnwyr a'r llall ar Wragedd y Beibl. Cafwyd myfyrdodau gan y gweinidog a gweinyddwyd y Cymun ganddo yn oedfa Hydref 1af. Diolch i Marian am baratoi'r oedfaon, i bawb a gymerodd ran ac i Dai Rees wrth yr organ.

Daeth cynulleidfa niferus i Oedfa Diolchgarwch, Cylch San Cler a gynhaliwyd ym Methlehem Newydd ar Hydref 8fed. Y pregethwr gwadd oedd y Parchedig Catrin Ann Thomas a chafwyd oedfa fendithiol yn ei chwmni.

**Ymddeoliad Hapus**



Delyth Evans, Crud y Wawr, Pwlltrap yn derbyn tystysgrif oddi wrth Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys am 44 mlynedd o wasanaeth. Dymuniadau gorau am ymddeoliad hapus iawn.

# CWMFELIN MYNACH

**Ramoth**

Ym mis Hydref cafwyd gwasanaeth Mr. Hefin Wyn yn y Cymundeb ac oedfa Sul canlynol gan y Parchg Huw George a oedd yn gwrdd Diolchgarwch a gwnaed casgliad tuag at Ymchwil Cancr.

Ar Hydref 15fed bu cynrychiolaeth o Ramoth yn y Gymanfa Ganu yn y Tabernacl, Maenclochog.

Tachwedd 5ed: Dim oedfa
12fed: Cymundeb am **9.15** y bore dan ofal y Parch. Huw George

**Priodas Ddeiamwnt**

Llongyfarchiadau i Hubert a Margaret Phillips, Waunfawr ar ddathlu eu Priodas Ddeiamwnt ar Hydref 12fed.

**Taith Gerdded Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda**

Bu pedair aelod yn cynrychioli Ramoth ar y daith gerdded eleni ar Fedi 16eg. Diolch iddynt.

RHYDWYN DAVIES
TRYDANWR
Parcylleine, Blaenffos, Boncath. SA37 0HZ
NICEIC APPROVED CONTRACTOR
Ffôn: 01239 831212
Symudol: 07836 751238

AM Y DEWIS GORAU GALWCH HEIBIO
SIOP Y PENTAN
Y Farchnad, Caerfyrddin
*Anrhegion Cyfoes Cymraeg*
*Llyfrau Cymraeg*
*CD's*
*Cardiau Cyfarch*
*a llawer mwy*
Ffôn: 01267 235044

Fferyllfa Clunderwen
GWASANAETH DOSBARTHU AR GAEL
Os ydych am i ni archebu eich presgripsiwn, cysylltwch â ni
Ffôn: 01437 563228
Fferyllfa Clunderwen, Crinow Glebe, Clunderwen. SA66 7NP

# RHYDWILYM

Nos Iau, Medi 14eg, daeth nifer o aelodau a ffrindiau i'r Cyfarfod Diolchgarwch a oedd dan ofal y Parch. Huw George. Pwysleisio wnaeth ei bod yn bwysig i ddiolch bob dydd, ac nid mewn gwasanaeth ddiolchgarwch yn unig. Yn ystod y gwasanaeth gwnaeth Magi adrodd darn o farddoniaeth oedd yn diolch am bopeth. Diolch iddi.

Ar ôl noson stormus ddiwedd Medi, yr oedd llif yn yr afon, a choeden wedi syrthio ar draws yr heol. Er gwaethaf y cwbl, llwyddodd y ffyddloniaid gyrraedd y Cwm i'r gwasanaeth cymun ar Hydref 1af, dan arweiniad Hefin Wyn. Diolch iddo am ei wasanaeth.

Tachwedd
5fed: 10.30 - Cymun - Y Parch. Judith Morris.
19eg: 2.00 - Sian Jones
Rhagfyr 3ydd: 10.30 - Cymun - Tudur Dylan Jones

# RHYDYCEISIAID

Hyfryd oedd cael gwasanaeth y Parch Guto Llywelyn yn oedfaon cymun ym misoedd Awst a Medi - diolch iddo. Pleser oedd cael cwmni Eifiona Lewis a Dewi Griffiths yn yr oedfaon.

Llongyfarchiadau i'r Parch Guto Llywelyn am gwblhau Ras hanner Marathon Caerdydd mewn amser da a chodi arian tuag at elusen Arch Noa.

# HENDYGWYN AR DAF

**Tabernacl**



Fe fu sawl ardal yn cynnal Cyrddau Diolchgarwch yr wythnosau diwethaf yma ac felly y bu yn y Tabernacl, Hendy-gwyn. Y Parch Andrew Lenny, nawr o Beniel ond gynt o gapel Baker Street, Aberystwyth oedd y pregethwr gwadd eleni. Cafwyd oedfa hyfryd dan ei ofal cyn cael cyfle i gymdeithasu ar ôl hynny.

Braf yw cael ambell oedfa wahanol a dyna a gafwyd ganol Medi pan gynhaliwyd yr oedfa yn Regwm, Hendy-gwyn a hynny trwy wahoddiad Eryl Rosser. Cwpan Rygbi'r Byd oedd y thema a chafwyd oedfa dan ofal yr aelodau. Ac mae'n rhaid bod yr oedfa wedi ysbrydoli tîm Cymru oherwydd dyma'r diwrnod y gwnaethant guro Awstralia o 40 pwynt i 6 !



Oedfa yn Regwm

Mae rhai aelodau wedi treulio cyfnod yn yr Ysbyty gyda ni yn ddiweddar ac rydym yn meddwl amdanynt ac yn dymuno gwellhad buan iddynt.

Mae Clwb Hwyl y Tabernacl yn mynd o nerth i nerth ar brynhawniau Gwener gyda hyd at 21o blant lleol yn dod i'r clwb.

Mae Cymdeithas y Tabernacl wedi ail-ddechrau ar ôl yr haf a chafwyd prynhawn o 'Hawl i Holi' gydag Wyn Evans, Beti-Wyn James a John Phillips ar y panel gyda Meurig James yn cadeirio.












Bob yn ail brynhawn dydd Mercher bydd grŵp Trafod y Beibl yn cwrdd gyda hyd at ddwsin yn bresennol.



Grŵp Trafod y Beibl

Mae popeth sydd yn cael ei gynnal gennym yn agored i bawb. Beth am ymuno gyda ni ar gyfer rhai o'r gweithgareddau'r gaeaf yma ? Bydd croeso cynnes i chi. Am fwy o fanylion cysylltir gyda Meryl James, ysgrifennydd y capel ar 01994 240 350.

Dyma drefn yr oedfaon yr wythnosau nesaf yma:

Clwb Hwyl y Tabernacl bob prynhawn Gwener rhwng 3.30 a 4.30.
Hydref 28ain am 11.00 : Oedfa yng ngofal Eglwys Corea, Caerdydd
Tachwedd 5ed : 9.30 Oedfa Gymun
Tachwedd 12fed: 11.00 : Oedfa
Tachwedd 19eg : 10.30 yn y Trinity : Oedfa dan ofal Natalie Morgan
Tachwedd 26ain : 11.00 : Oedfa
Rhagfyr 3ydd : 9.30 : Oedfa Gymun

---

Llongyfarchiadau i Nerys Lewis, Brynglas, Hendygwyn ar Dâf a Luke Harris, Tylorstown ar eu dyweddiad. Dymuniadau gorau oddi wrth y ddau deulu.

Dymuniadau gorau i Lowri Grug Jenkins, merch Heather a Neil, Cysgod y dderwen, sydd wedi cychwyn ar ei swydd newydd fel Swyddog Cyswllt Ysgolion a Cholegau ym Mhrifysgol Caerdydd yn ddiweddar.

Cydymdeimlwn â theulu y diweddar Mrs Olive Davies, Rivelyn, Millfield a fu farw yn ddiweddar.

## Hoelion Wyth - Cangen Hendygwyn

Cynhaliwyd cyfarfod mis Hydref, fel arfer, yn lolfa Clwb Rygbi Hendy-gwyn. Croesawyd pawb gan Claude James, ein cadeirydd cyn iddo estyn croeso cynnes a chyflwyno ein siaradwr gwadd, sef Meic Thomas. Brodor o Hendy-gwyn ond, ers deugain mlynedd, yn byw yn Hwlffordd a chyn ymddeol, yn gweithio fel gweithiwr cymdeithasol. Yn ddiddorol, roedd Meic yn bresennol yn y cyfarfod cyntaf i sefydlu cangen Hendy-gwyn o'r Hoelion 8, a hynny yn nhafarn yr Yelverton yn y dre.

Testun ei gyflwyniad oedd Abaty Hendy-gwyn ar Daf. Eginodd ei ddiddordeb yn y pwnc ar ôl iddo ymuno i wrando ar ddarlith ar-lein am y Sistersiaid gan Yr Athro Janet Burton o Brifysgol y Drindod Dewi Sant a hynny yn ystod y cyfnod clo. Roedd ei ddiddordeb yn ddigon iddo ymchwilio ymhellach a phenderfynu cofnodi'r hanes.

Yn dilyn ei waith trylwyr, penderfynodd gyflwyno'r hanes i gymdeithasau, a gwneud hynny ar ffurf ymgom, gyda hiwmor ac wedi ei wisgo mewn gwisg y byddai Abad olaf yr Abaty yn gwisgo. Cafodd yr Abaty yn Hendy-gwyn, ynglŷn â llawer Abaty arall ei ddinistrio ac mae hyn yn bwysig iawn yn hanes Cymru.

Roedd hwn yn gyflwyniad gwych a ffordd dda i glywed am hanes, efallai nad oedd rhan fwyaf yn ymwybodol ohono. Ar ddiwedd y cyflwyniad, cafwyd ychydig o amser i holi cwestiynau cyn i Ithel Parri-Roberts ddiolch yn wresog iddo am noson ddiddorol dros ben.



Meic Thomas yng nghwmni'r aelodau

## Cylch Meithrin Hywel Dda



Diolch yn fawr i'r heddlu lleol am ddod i weld plant bach y Cylch Meithrin fel rhan o'r thema 'Pobl sy'n ein helpu ni'.



Plant y Cylch Meithrin yn mwynhau ar eu taith i weld y pwmpenni

**Enillwyr Clwb 200 Mis Medi**

1af 32 - Hedydd Thomas £40
2ail 154 - George Bancroft £20
3ydd 130 - Crystal Lee £10

Diolch i bawb sydd wedi prynu rhif, rydyn ni'n gwerthfawrogi eich cefnogaeth yn fawr iawn.

**Cylch Ti a Fi Hywel Dda**



Teuluoedd Cylch Ti a Fi Hywel Dda yn mwynhau taith i Lanteg i weld y pwmpenni.

## Côr Meibion Hendygwyn a'r Cylch




Mewn ymdrech ar y cyd rhwng y côr a thafarn Royal Oak Abergwaun ar 22ain Gorffennaf, codwyd swm teilwng iawn sef £3,567 i Ambiwlans Awyr Cymru. Ymdrech ddewr.

Yn y llun gwelir chwith i'r dde: Gareth Edwards - Cadeirydd Côr Meibion Hendy-gwyn ar Daf a'r Cylch, Danny Morgan-Rheolwr y Royal Oak, Richard Davies, o'r côr - Trefnydd, a Rhys Watkins-Cynrychiolydd Ambiwlans Awyr Cymru.

**Cyngerdd yn Cheltenham**

Ar ddydd Sadwrn 30ain Medi 2023 cawsom gyngerdd llwyddiannus iawn yn Eglwys St Philip & St James, Leckhampton, Cheltenham. Ailagorwyd yn ddiweddar fel canolbwynt cymunedol ar ôl ail-ddylunio gwerth £3 miliwn.

Roedd cynulleidfa gwbl werthfawrogol mewn eglwys hardd, yn codi arian i Ymddiriedolaeth Gerdd Martin Schellenberg, sy'n cynnig cymorth ariannol tuag at addysgu cerddorion ifanc dawnus mewn llais, piano neu organ yn yr ardal hon.

Buom yn canu cyfanswm o 17 o ganeuon o dan reolaeth ein Cyfarwyddwr Cerdd Hefina Jones. Cyfeiliwyd dwy o'r caneuon ar yr organ bib hardd gan ein cyfeilydd aml-dalentog Owain Lewis. Yr unawdwyr oedd Martyn Davies ac Owain Jenkins. Ymunodd yr unawdydd Chloe Underwood â ni, sydd ar hyn o bryd yn astudio yn Ysgol Gerdd a Drama'r Guildhall.

Cafwyd penwythnos ddifyr gan bawb, gan gynnwys ein cefnogwyr ffyddlon.



Y côr yn Eglwys St Philip & St James, Leckhampton

Cyfraniadau

| | |
|---|---|
| Llinos Thomas, Llangynin | £20 |
| Eilyr Thomas, Llandysilio | £10 |

*Diolch yn fawr*

the LONDON HOUSE butchery
Stryd Sant Ioan
Hendygwyn ar Daf
SA34 0AN
**01994 240705 / 240055**
*Galwch mewn am y dewis gorau*
Dilynwch ni ar Facebook

GBA
GERALD BLAIN
CYMDEITHION CYF
Ymgynghorwyr Cynllunio a Phensaerniol
15 Stryd St Ioan, Hendygwyn, Sir Gaerfyrddin, SA34 0AN
01994 240 366
Gerald@GeraldBlainAssociates.co.uk
GeraldBlainAssociates.com
@GBAssociates1

RUSSELL THOMAS
GWASANAETH HURIO JCB
PEIRIANT CLODDIO 360°
TRACTOR A THREILAR

Copper Beech, Efailwen,
Clunderwen
Ffôn: 01994 419529
Symudol: 07971 558514

# PENYBONT

**C Ff I Penybont**

Daeth newyddion gwych ar ddechrau'r tymor newydd sef fod y clwb wedi ennill Cwpan John a Hazel James am y nifer uchaf o farciau ar hyd y flwyddyn, ac felly CFfI Penybont oedd Clwb Y flwyddyn 2022-2023.

A llongyfarchiadau mawr i Mared Evans am gael ei hethol yn Gadeirydd Pwyllgor Gweithgareddau'r Sir 2023-2024.

Hefyd ar ddechrau'r tymor, cyflwynodd y clwb siec o £840 i Fanc Bwyd Caerfyrddin ar ôl codi'r arian yn ystod y flwyddyn flaenorol.

Mae aelodau'r clwb bellach yn paratoi ar gyfer yr Eisteddfod.


Cyflwyno siec i Fanc Bwyd Caerfyrddin

# LOGIN

**Calfaria**

Oedfaon

Diolch o galon i Mrs Elonwy Phillips am ddod i'r adwy ar fyr rybudd, yn lle Mr Hedd Ladd Lewis. Cafwyd oedfa o ddiolchgarwch bendithiol yn ei chwmni a gwerthfawrogwn ei gwasanaeth yn fawr iawn. Methodd y Parchedig Wyn Thomas ddod atom chwaith, oherwydd salwch, ond mae'n dda deall ei fod yn gwella'n raddol. Pob dymuniad da i Hedd ac i Wyn.

Dyma drefn yr oedfaon ar gyfer yr wythnosau nesaf :-
Tachwedd
5ed: Parchedig Judith Morris - Cymun am 2
19eg: Mrs Catrin Isaac Thomas - Cwrdd am 10.30
Rhagfyr
3ydd: Mr Tudur Dylan Jones - Cymun am 2
17eg: Oedfa Nadolig yr aelodau am 10.30

**Y Fynwent**

Mae'r fynwent yn lan ac yn daclus unwaith yn rhagor, diolch i John, Bleddyn, Russell, Kay ac Endaf am eu gwaith.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau mawr i Peter a Janet Llewellyn (Rhiw gynt) ar ddod yn dadcu a mamgu am y tro cyntaf. Ganwyd merch fach o'r enw Rosie i'w mab Craig a'i wraig Natalie.

**Penblwyddi**

Dymunwn benblwydd hapus i ddau o'n haelodau sydd wedi, neu ar fin dathlu penblwyddi arbennig yn ddiweddar - Endaf Davies, Rhydymerydd yn 40 oed ac Ann Jones, Clos Bach yn 80 oed.

**Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda**

Bu Ceirios, Einir ac Eurfyl yn cynrychioli Calfaria ar y daith gerdded noddedig blynyddol gynhaliwyd yn Llanboidy ar ddydd Sadwrn, Medi 16eg - diolch iddynt am wneud hynny.

## Canolfan Gymdeithasol Ffynnonwen

Cynhaliwyd cyfarfod ar 12fed Medi i drefnu rhaglen am y gaeaf.

**Noson Cymorth Cyntaf:** Nos Wener, 6ed Hydref.

**Noson gêmau dan ofal Lyn Burnell:** Nos Wener, Tachwedd 17eg am 7.30. Byddwn yn gwneud tê a choffi. Pawb i ddod â chacen i rannu. Dewch i gefnogi, bydd yn siwr o fod yn noson ddifyr.

**Noson cwrs di-ffib:** Nos Wener, 8fed Rhagfyr 6-8 o'r gloch. Enwau i'r ysgrifennydd mor gynted â phosib.

**Gwasanaeth Canu Carolau:** Nos Wener, 22ain Rhagfyr yng nghapel Cwm Miles am 7.30. (manylion i ddilyn)

**Cwrs Ymwybyddiaeth Cymorth Cyntaf**

Daeth rhyw bymtheg o bobl i'r ganolfan i gael y cwrs. Wayne Edwards a Aiden Aston-Murray ddaeth i'n hyfforddi gyda Ambiwlans Sant Ioan. Cafwyd dwy awr o hyfforddiant am yr hyn sydd orau i'w wneud mewn sefyllfa o argyfwng. Manteisiodd pawb ar y cyfle i gael profiad. Noson gartrefol ond hynod o wybodus gyda'r hyfforddwyr yn ein hannog i fod yn hyderus.
Noson arbennig. Edrychwn ymlaen yn awr at y cwrs di-ffib ar Nos Wener, 8fed Rhagfyr 6-8 o'r gloch. Rhaid rhoi enwau mewn i'r ysgrifennydd erbyn 1af Rhagfyr fan pellaf.

DH DAVID HARRIES & Co DH
CYFANWERTHWYR FFACTORAU CERBYD
Westgate, West Street, Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 241100
Batteries, Belts, Bearings, Compressors, Clutches, Filters, Hydraulics, Oil, Paint.

Bysiau Cwm Tâf
"Os am deithiau hwylus braf Dewch da ni ar fws Cwm Tâf"
PENRHEOL, HEN-DY-GWYN, SA34 0NH
01994 240 908
www.tafvalleycoaches.co.uk







Noson y cwrs Cymoth Cyntaf


## Dadorchuddio Cofeb Dilys Edwards, Manarafon yn Login

Ar brynhawn Sadwrn braf Hydref y 7fed croesawyd teulu y diweddar Dilys Edwards, Manarafon  Login i Ganolfan Treftadaeth Rheilffordd y Cardi Bach i hen orsaf Login. Yn bresennol hefyd roedd nifer o aelodau Cymdeithas Rheilffordd y Cardi Bach.

Pwrpas y cyfarfod oedd talu teyrnged i Dilys Edwards, gwraig a oedd yn adnabyddus i nifer fawr o bobl y ardal a thu hwnt, fel person hynaws a chymeriad hapus a chyfeillgar. Bu Dilys fyw drws nesaf i'r orsaf yn Login rhan helaethaf o'i hoes gan fod yn gyfrifol am agor a chau'r gatiau yng ngorsaf Login ac hefyd ar groesfan Penclipyn. Gwnaeth Emyr Phillips, Peter Towns, gorsaf feistr Login a Roy Llewellyn son am ei gwaith a sut oedd yn hoffi dwyn atgofion am ei hamser hapus yn gweithio yng nghwmni cymeriadau'r rheilffordd pan oedd yn ei gogoniant prysur.



Dadorchuddiwyd Cofeb ar fur cefn y Ganolfan Treftadaeth gan Roy Llewellyn yng nghwmni'r teulu cyn derbyn te prynhawn bendigedig wedi ei baratoi gan Dawn Towns a'i ffrindiau. Diolch yn fawr i Peter a Dawn am eu croeso.






Llun y teulu









# CWM MILES

Capel: Cynhelir y Cwrdd Diolchgarwch ar brynhawn Sul, 29ain Hydref am 2 o'r gloch. Disgwylir Elonwy Phillips. Croeso cynnes i bawb.
Cynhelir cymun mis Tachwedd ar brynhawn Sul 19eg am 2 o'r gloch. Disgwylir y Parchedig Gareth Ioan.

# BANCYFELIN

## DATHLIAD DWBWL

Profiad hyfryd oedd gweld Capel Cana, ger Bancyfelin yn llawn hyd yr ymylon nos Sul, 17eg o Fedi 2023 mewn noson arebennig i ddathlu 200 mlwyddiant yr Achos ac i ddathlu ail-agor y capel wedi ychydig o waith adnewyddu diweddar.

**200 mlwyddiant.**
Agorwyd drysau Cana yn 1821 yn dilyn aberth ac ymdrechion nifer o ffyddloniaid yr ardal i godi capel a fyddai'n gartref i achos yr Annibynwyr a sefydlwyd yn 1820.

Ymlwybrodd pobl yn dawel i Lwynderw, cartef nepell o safle presennol Cana, mor bell yn ôl â 1815 pan fyddai cyrddau gweddi ac Ysgol Sul yn cael eu cynnal ar amryw o aelwydydd yr ardal, cyn bod sôn am sefydlu achos. Bu pregethwyr cynorthwyol yn ymweld â'r aelwydydd yn gyson nes dechrau'r gwaith o godi Capel Cana, ar ddarn o dir lle teflid sbwriel a gwastraff yr ardal. Bu cyfeillion yn cyrchu cerrig ychwanegol o'r cwar gyda cheffyl a chart er mwyn gosod sylfaen i'r capel. Wedi cwblhau'r gwaith o godi'r capel, corfforwyd eglwys yno gan David Peter y flwyddyn ganlynol.

Pan adeiladwyd Cana, dewis y bobl oedd gosod ffenestri clir yn yr adeilad fel y bo pawb o'r tu allan yn gallu gweld i mewn iddo, ond yn bwysicach fyth, fel y bo'r sawl sy'n cwrdd y tu mewn i'r adeilad yn gallu gweld allan i'r byd. Er i'r ffyddloniaid gwrdd y tu mewn i Gana ers dwy ganrif, nid gweledigaeth fewnblyg fu gan yr eglwys ar hyd blynyddoedd hir ei hanes. Yn hytrach, gweledigaeth fwy eang o lawer, ac awydd i fod yn offeryn yn llaw Duw i dystiolaethu i'r fro gyfan ac i'r byd. Wrth ddiolch am ddwy ganrif o dystiolaeth, diolchwn fod yr un weledigaeth yn dal i feddiannu calonnau aelodau Cana heddiw. Mae yma o hyd gymdeithas glòs a chynnes ac awydd ymysg yr aelodau i dystio i Iesu hyd eithaf eu gallu.

**Dathlu**
Bu'r dathliad nos Sul,17eg Medi yn gyfuniad o ganu cynulliedfaol dan arweiniad brwdfrydig Meinir Richards, Llanddarog ac i gyfeiliant Band Capel y Priordy. Cafwyd cyfraniadau hynod o werthfawr i'r noson gan Gôr Bois y Felin, Bancyfelin a Chôr Seingar, Caerfyrddin ynghyd â'r tenor Dafydd Wyn Jones, Llanrhaedr Dyffryn Clwyd, a fu hefyd yn canu deuawd gyda Elin Wyn James. Llywydd y noson oedd John Thomas, Y Bontfaen, un o deulu Derllys sydd wedi bod yn ffyddlon i'r achos yng Nghana ers cenedlaethau. Mae John a'i briod Carol yn teithio'n gyson ar y Sul o'r Bontfaen i addoli yng Nghana. Derllys gyda llaw oedd cartref Madam Bridget Bevan a fu'n cefnogi Gruffydd Jones i sefydlu ysgolion cylchynol.



Do, bu'n noson a fydd yn aros yn y cof, ac yn ddathliad teilwng o ddwy ganrif o dystiolaeth i'r Arglwydd Iesu Grist yn y fro. Noson i godi'r ysbryd ac i'n hannog i ddal ati gyda'n gwaith. Gweddiwn y bydd Cana yn parhau i belydru goleuni Crist am flynyddoedd lawer eto.

*Beti-Wyn James*
*Gweinidog*

## Eglwysi Dementia Gyfeillgar

Mae'r gwaith wedi cychwyn yn eglwysi Gofalaeth Y Priordy, Cana a Bancyfelin i weithio tuag at bod yn eglwysi dementia gyfeillgar. Mae Undeb yr Annibynwyr Cymraeg wedi cyhoeddi ffeil arbennig iawn sy'n ganllaw arddechog i'r eglwysi i weithio tuag at y cyfeiriad hwn. Un arbrawf diweddar oedd gwahodd rhai o breswylwyr Cartref Dol y Felin a Chartref Gofal Plas y Dderwen i festri Cana ar gyfer awr fach o ganu emynau a sgwriso dros baned a chacen. Bu'r arbrawf yn un llwyddiannus iawn a phawb wedi mwynhau'r


AWEN TEIFI
Dewis da o lyfrau Cymraeg
i blant ac oedolion,
hefyd cardiau a theganau
Ar agor 9yb - 5yh
Llun i Sadwrn
Ffôn: 01239 621370
23 Stryd Fawr
Aberteifi. SA43 1HJ

CENNYDD JAMES
- Adeiladwr
- Adeiladau newydd
- Adnewyddiadau
- Llwybrau a phatios
- Plastero a sgimio
- Adnewyddu simneiau

Gwasanaeth yn y Gymraeg!
Ffôn: 01239 831100
Ffôn Symudol: 07968 163181

Ifan Phillips 07788 424559
CANOLFAN REHAB CENTRE
therapi chwaraeon
clinigol
ar gyfer anafiadau sy'n
gysylltiedig â chwaraeon a gwaith
Apwyntiadau ar gael yn Crymych a San Cler

prynhawn yn fawr. Edrychwn ymlaen i wahodd ein cyfeillion atom eto yn y dyfodol agos ond cyn hynny, fe fydd aelodau'r Ofalaeth yn ymweld â'r Cartrefi yn ôl eu harfer i gynnal Cyrddau Diolchgarwch. Diolch i bawb a gefnogodd y digwyddiad hwn.



Rhai o breswylwyr Cartref Dol y Felin a Chartref Gofal Plas y Dderwen yn festri Cana.

### Tanio'r Fflam



Daeth cynulleidfa dda ynghyd i Gapel Cana bnawn Sul, 1af o Hydref ar gyfer Oedfa Tanio'r Fflam. Cymerwyd rhan gan blant a phobl ifanc eglwysi Bancyfelin, Cana, Ffynnonbedr a Gibeon. Y siaradwr gwadd oedd Nigel Davies a chyflwynwyd neges bwysig ganddo yn ei ffordd arbennig ei hun. Roedd y gynulleidfa yn llawn syndod o weld ei ddoniau hud a lledrith ar waith unwaith eto! Llywyddwyd yr oedfa gan Y Parchg Beti Wyn James. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi.

### Bore Macmillan

Cynhaliwyd bore coffi yng Nghlwb y Cwins Abergwili fore Gwener, 29ain Medi i gefnogi Macmillan. Trefnwyd y bore gan aelodau Gofalaeth Y Priordy, Cana a Bancyfelin. Codwyd £1,300.



Diolch i bawb am eich cefnogaeth eleni eto a diolch am gwmni Maer a Maeres Tref Caerfyrddin ynghyd â Cefin Campbell AS.

### Cyrddau Diolchgarwch

Cynhaliwyd cyfres arbennig o gyrddau diolchgarwch yng Nghapeli Cana a Bancyfelin eleni. Bu plant yr Ysgol Sul, y pobl ifanc a'r oedolion ifanc yn cyflwyno eu gwaith yn arbennig yn eu hoedfaon a derbyniwyd llwyth o fwyd yn y naill gapel a'r llall ar gyfer y banc bwyd. Cynhaliwyd Cyrddau Pregethu arbennig hefyd gyda Annalyn Davies yn pregethu yng Nghana a'r Parchg Eirian Wyn Lewis yn pregethu ym Mancyfelin. Mwynhawyd swper ardderchog yn dilyn yr oedfaon, diolch i wragedd yr eglwysi. Do bu'n Ŵyl ardderchog eleni eto. Diolch i bawb a gefnogodd.



Capel Bancyfelin

GWASANAETH CEIR HENDYGWYN

Canolfan atgyweirio ceir




Gwerthu Teiars, Batris, Egsosts ayyb


**Dai James - Steven Owens**
Uned 9, Ystad Ddiwydiannol Gerddi'r Ffynnon, Hendygwyn ar Daf

01994 240230 / 07972 725193

LAMO'S MOTORCYCLES



*Dyma'r lle i feicmodurwyr*
The Showroom
Llandissilio
Gwerthiant ▫ Gwasanaeth ▫ Atgyweirio
Ffôn / Ffacs: 01437 563678



- Bwydydd a diodydd o Gymru a thu hwnt.
- Bwydydd at ddeiet arbennig
- Bwydydd moethus
- Nwyddau glanhau ac ymolch naturiol
- Nwyddau wedi eu pobi yn y siop.
- Bwydydd cyflawn a chynhwysion bob dydd.
- Gwasanaeth archebu nwyddau a hampers ar gael drwy'r flwyddyn

1 Prospect Place, Crymych, SA41 3QQ
Ffôn: 01239 831537
e.bost: suzannejonesbyb@gmail.com



Capel Cana

**Gibeon**
Ar fore Sul, Medi 17eg cafwyd Oedfa Gymun fendithiol o dan ofal y gweinidog, y Parch. Rhodri Glyn Thomas. Cyfeiliwyd gan Hilary.

Cynhaliwyd oedfa Tanio'r Fflam yng Nghapel Cana ar brynhawn Sul, Hydref 1af. Bu plant Ysgolion Sul, Cana, Gibeon, Ffynnonbedr a Bancyfelin yn cymryd rhan gyda darlleniadau a gweddi. Bu Nigel Davies yn annerch y plant (a'r oedolion) yn ddifyr iawn, yn ôl ei arfer. Cafwyd oedfa hyfryd wrth gyd-addoli. Diolch i Elan, Holly, Llion, Fern, Daisy a Gwennan am gymryd rhan dros Gibeon.

# TRELECH

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Aled a Helen,Treto Uchaf, ar ddathlu eu Priodas Ruddem ar ddiwedd mis Medi.

Diolch i bawb wnaeth gefnogi y ganolfan pan wnaeth Côr Seingar ddod atom yn Nhafarn Beca yn ddiweddar. Cafwyd noson arbennig a phawb yn canmol y canu gwych a'r hwyl a gafwyd. Diolch i Wil Field (Fix it) Cyfrifiaduron am ei gyfraniad hael i noddi'r noson.

**Diolch**
Hoffai Ceris, Sion a'u teuluoedd ddiolch i bawb am eu cefnogaeth a chyfraniadau ar gyfer yr her hanner marathon Caerdydd yn ddiweddar. Casglwyd £2,500 tuag at MS Society Cymru. Diolch i chi gyd.

# LLANBOIDY

**Taith Gerdded Cymdeithas Capeli Hywel Dda**
Cynhaliwyd y taith gerdded flynyddol yn Llanboidy eleni gan ddechrau tu fas i Neuadd y Pentref.
Daeth nifer dda at ei gilydd fel arfer gan gerdded dros dri achos da. Ar ol cerdded pedair milltir cafwyd cyfle i gymdeithasu dros paned a chacen. Diolch i aelodau Trinity am baratoi a gweini'r lluniaeth ac i bawb wnaeth gyfrannu at y gweithgaredd mewn unrhyw ffordd.



Cerddwyr yn mwynhau'r wledd

**Chwaeroliaeth**
Ar brynhawn Mercher, Medi'r 20fed, daeth yr aelodau ynghyd i'r festri ar gyfer cyfarfod cyntaf y tymor o dan lywddiaeth Wenfys Rees. Prynhawn o gymdeithasu oedd hwn gyda'r aelodau wedi dod a llun ohonynt yn fabanod er mwyn dyfalu pwy oedd pwy. Cafwyd te a chacen wedi eu paratoi gan Wenfys a Delyth.

**Sefydliad y Merched**
Cafwyd cyfarfod busnes ar Awst 7fed o dan lywyddiaeth Denise Harris. Mae llawer o weithgareddau wedi eu trefnu gan bwyllgor y Sir yn cynnwys dawnsio llinell, taith gerdded o amgylch Llansteffan a tip-it.
Ar Fedi 14eg teithiodd rhai o'r aelodau i'r Gerddi Botaneg ac wedi iddynt fwynhau pryd o fwyd, cawsant eu tywys ar daith addysgiadol o amgylch y gerddi.

**Gwellhad Buan**
Dymunwn yn dda i Rodney Williams sydd wedi derbyn llaw-driniaeth yn ddiweddar a dymunwn adferiad llwyr iddo.

**Neuadd y Farchnad, Llanboidy - i'ch dyddiadur**
Tachwedd 18fed: Noson gyda band Iwcalili Caerfyrddin
*Dewch a bwyd a diod eich hun.*
Rhagfyr 8fed: Ffair Nadolig y neuadd
*Eitemau gan blant Ysgol Bro Brynach.*

FFENESTRI
M.W.J
WINDOWS
FFENESTRI, DRYSAU, YSTAFELLOEDD GWYDR A GWTERI
PVCU
TY GWYN, LLANDISSILIO, CLYNDERWEN
01437 563 806 07774 812587




WYN'S TYRES
BRECIAU ac EGSOSTS
Galwch i mewn am brisau cystadleuol a gwasanaeth heb ei ail
UNED 1
WEMBLEY GARAGE
SAN CLER
Ffôn: (01994) 231599

# EFAILWEN

**Nebo**
Mae Ysgol Sul Nebo wedi ail ddechrau ar ôl egwyl yr haf ac yn cwrdd bob bore dydd Sul am 9.30 yb yn y Festri ac mae croeso mawr i blant a phobl ifanc yr ardal ymuno unrhyw bryd. Braf oedd gweld nifer dda o aelodau'r Ysgol Sul ar daith gerdded flynyddol Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda fore Sadwrn, 16eg Medi i godi arian i Tir Dewi, Beiciau Gwaed Cymru a Meddygfa San Clêr.

**Oedfa o Fawl**
Cynhaliwyd oedfa o fawl capeli Llwynyrhwrdd, Moriah, Glandwr, Hebron, Cefnypant a Nebo fore Sul, 1af Hydref 2023 gyda'r Parch Gareth Ioan yn llywyddu. Dyma'r ail flwyddyn i'r capeli gynnal oedfa o fawl yn lle'r gymanfa ganu draddodiadol. Eleni, y drefn oedd bod pob capel yn dewis emyn allan o'r 'Caneuon Ffydd' a chynrychiolydd pob capel yn dweud pam eu bod wedi dewis yr emyn hwnnw. Roedd nifer fawr wedi dewis emynau gyda chyswllt lleol ac roedd clywed am y cysylltiadau hyn yn ddiddorol dros ben. Canodd plant a phobl ifanc Ysgol Sul Nebo dair cân a chodwyd tipyn o hwyl wrth gael encôr a chlapio llon! Cafwyd casgliad da hefyd o £101 at elusen Tŷ Hafan. Oedfa hyfryd iawn a diolch yn fawr i'r Parch. Gareth Ioan am wneud yr oedfa mor hwylus a diddorol.



Plant ac ieuenctid Nebo gyda'r Parch. Gareth Ioan

## Hoelion Wyth - Cangen Beca
Croesawyd yr aelodau nôl i flwyddyn arall o weithgareddau gan ein Cadeirydd, Eifion Evans ac hefyd croesawodd aelod newydd sef Emyr John yn wresog i'n plith. Mynegodd dristwch o golli un o'n haelodau ffyddlon sef Wyn (Henry) Morris a chofiodd yn annwyl iawn amdano.

Merch ifanc oedd ein siaradwraig wadd, sef Gwawr Lewis o ardal Trelech. Bu'n cyflwyno hanes ei bywyd a'i phrofiadau gwaith drwy gyflwyniad ac ambell glip o ffilm ar y sgrin. Merch fferm yw Gwawr a chafodd ei addysg yn Ysgol Gynradd Hafodwenog, Ysgol Uwchradd Bro Myrddin a Choleg Phrifysgol Caerdydd. Mynychodd Aelwyd yr Urdd Hafodwenog a bu'n cymryd rhan mewn gwahanol gystadlaethau. Bu hefyd yn aelod brwd o Glwb Ffermwyr Ifanc Pen y Bont ac mae'n dal i'w cynorthwyo a'i cefnogi.

Ychydig ar ôl gadael y brifysgol cafodd Gwawr brofiad gwaith gan gwmni Cyfle a'i lleoli gyda chwmni Telesgop yn Abertawe fel ymchwilydd dan hyfforddiant. Swydd oedd yn ei siwtio hi'n dda, meddai, gan ei bod yn gorfod siarad gyda llawer o wahanol bobol! Mae'n cyfaddef ei bod hi'n joio siarad! Ers y cyfnod hyfforddiant mae wedi bod yn ymchwilydd i amryw raglen, yn is-gynyrchydd ac erbyn hyn yn gynhyrchydd y gyfres boblogaidd Ffermio.

Cyn gorffen ei chyflwyniad pwysleisiodd Gwawr pa mor ffodus a dyledus oedd o fod wedi cael ei magu ar aelwyd fferm wledig. Mae'n gwerthfawrogi'r dylanwadau da cafodd yn yr ysgolion, y Capel, Aelwyd yr Urdd a'r Ffermwyr Ifanc. Cawsom noson hwylus a difyr yn ei chwmni a diolchwyd iddi gan Eifion. Diolch hefyd i Robert am ddefnydd y lleoliad ac am ddarparu'r cawl arferol ar ein cyfer.



Eifion Evans, Ken Thomas ac Eutfyl Lewis yng nghwmni'r siaradwraig wadd, sef Gwawr Lewis.

**Rosemarie Davies**
Cyfrifydd Technegol
Treth Ar Werth
Cadw Cyfrifon
Cyflogau
Hunan Asesiad
Fferm Blaenwaun, Hebron
Ffôn: 01994 419005
Symudol: 07854 212799
Yn drwyddedig gan
Association of Accounting Technicians

Delwedd
07814 543634
*Salon Harddwch a Chyflenwol*
Crymych
Triniaeth o safon mewn
awyrgylch gartrefol gan Nia

Wyndham Phillips a'i Feibion
POBYDDION
COUNTY STORES
San Clêr
*Bara a chacennau ffres yn ddyddiol*

Ffôn: 01994 230474

## Codi Cerflun Twm Carnabwth

Mae'r ymgyrch codi arian yn mynd yn ei flaen yn dda, ond nid da lle gellir gwell. Rydym wedi cyrraedd £8700 hyd yn hyn ac yn agoshau tuag at y swm cychwynnol o £10,000.

Dyma restr o'r cymdeithasau diweddaraf sydd wedi cyfrannu yn ystod yr wythnosau diwethaf, diolch o galon iddynt am eu cefnogaeth:-

Capel Bethel Mynachlogddu - £200; Cyngor Cymuned Maenclochog, Cymdeithas Annibynwyr Cwm Cerwyn, Hoelion Wyth Hendy Gwyn a Capel Pisga Llandysilio - £100 yr un; Capel Nasareth Hendy Gwyn a Pwyllgor Bro Clydau - £50 yr un.

Mae nifer o unigolion wedi cyfrannu hefyd ac rydym yr un mor ddiolchgar iddynt hwy am eu haelioni. Os nad ydych wedi cyfrannu hyd yn hyn, peidiwch a phoeni a peidwch bod yn shei, mae dal cyfle a croeso i chi wneud! Ma modd cyfrannu drwy'r ddolen gofundme ar dudalen facebook Codi Cerflun Twm Carnabwth; gwneud taliad arlein yn uniongyrchol i fewn i gyfrif banc Cymdeithas Cwm Cerwyn ar y manylion canlynol 30 91 65 01036767; neu drwy anfon siec ataf i, Eurfyl Lewis, Lluest, Llanglydwen, Hendy Gwyn ar Daf, SA34 0XP. Diolch mlan llaw am eich cefnogaeth.



Tudur Lewis, cadeirydd Cyngor Cymuned Cilmaenllwyd yn cyflwyno siec o £500 i Eurfyl Lewis, trysorydd ymgyrch Codi Cerflun Twm Carnabwth.



Teulu Rhosfach, Efailwen yn cyflwyno siec o £130 i Eurfyl Lewis. Codwyd yr arian drwy gynnal raffl ar noson agoriadol Bar Beca. Diolch o galon a phob dymumiad da i chi fel teulu gyda'r fenter.

# LLANGYNIN

**Gwellhad buan**

Dymuniadau gorau am wellhad buan i nifer o drigolion Llangynin sydd wedi bod yn anhwylus yn ddiweddar. Ar hyn o bryd mae Matthew Little, Lleifior, yn derbyn triniaeth yn yr ysbyty ym Mryste ac mae Ken Harris, Gelli Aur, hefyd yn yr ysbyty yng Nglangwili.
Da clywed bod Alex Coope, Derlwyn, wedi dod adre o'r ysbyty ac yn gwella ar ôl derbyn llawdriniaeth. Yn yr un modd mae Les Murphy, Ucheldir, yntau wedi dod adre yn dilyn cyfnod yn yr ysbyty, Anfonwn ein cofion cynhesaf atynt , a dymunwn wellhad llwyr a buan iawn i bob un ohonynt.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn yn ddiffuant â Melissa a Dafydd, Llwynpiod, yn eu profedigaeth o golli tad Melissa yn ddiweddar, sef Henry Wyn Morris o Landysilio, Clunderwen. Cofiwn am y teulu i gyd yn eu galar a'u hiraeth.

**Beth sydd ymlaen yn y Bryn?**

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch y Bryn am 2 o'r gloch brynhawn dydd Sul, Hydref 22ain. Pregethir gan y Parch Rhodri Glyn Thomas. Bydd te neu goffi, a chacen a chlonc i ddilyn. Croeso i bawb.
Bwriedir cynnal noson Bingo dan nawdd Pwyllgor y Neuadd nos Fercher, Tachwedd 22ain. Mr.Glyn Rees, Sanclêr, fydd yn galw'r rhifau. Bydd y drysau ar agor am 7.00 o'r gloch yr hwyr. a'r gêm gyntaf am 7.30. Cynhelir raffl ar y noson a bydd ychydig o luniaeth ysgafn ar gael yn ystod yr egwyl.

**Diolch**

Dymuna Mark, Rhian a'r teulu ddiolch yn fawr am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a dderbyniwyd yn ystod eu profedigaeth o golli tad Mark, sef Roy White o Chesterfield.

**Clwb 60**

Ar brynhawn Iau y 14eg o Fedi cyfarfu'r gymdeithas am y tymor newydd yn Neuadd Capel y Bryn. Y gwestai gwadd y tro hwn oedd Mr. Emyr Phillips o Gilgerran a chroesawyd ef gan Mr. Verian Williams, y cyn gadeirydd yn absenoldeb y cadeirydd. Mae Emyr yn adnabyddus i lawer, yn gyn brifathro gweithgar a phoblogaidd yn nifer o ysgolion gogledd Sir Benfro ac yn heintus o frwdfrydig am hanes Rheilffordd y Cardi Bach, a dyna oedd thema'r prynhawn. Yn amlwg mae wedi ymchwilio i'r hanes yn drylwyr ac wedi treulio hydoedd yn prosesu'r holl wybodaeth a chanfyddiadau.

Fel y gwŷr pawb, roedd y tren stem hynafol, Y Cardi Bach yn gwasanaethu'r ardal o Hen dy gwyn ar daf i Aberteifi gyda gorsafoedd yn Hen dy gwyn, Llanfallteg, Login, Llanglydwen, Rhydowen, Y Glog, Llanfyrnach, Crymych, Boncath, Cilgerran ac Aberteifi. Bu'r daith olaf yn cario teithwyr ar y 10fed o fis Medi 1962 ond dal i deithio yn cario nwyddau wnaeth tan

fis Mai 1963. Rhyfeddol o drist oedd ei weld yn dod i ben a gwnaeth y diweddar Ddoctor George Penn ffilmio taith olaf y teithwyr. Cafwyd prynhawn diddorol a phleserus dros ben a diolch i Emyr am ei gyflwyniad arbennig. Yng ngofal y te oedd Mary ac Ivy heb anghofio'r Mary arall wrth gwrs, a Menna enillodd y raffl.

Y cyfarfod nesaf fydd y Cwrdd Diolchgarwch o dan arweniad y Parch Guto Llewelyn ar Hydref y 12ed. Byddwn yn casglu tuag at Fanc Bwyd Caerfyrddin. Croeso cynnes i bawb.

# LLANDYSILIO

**Cydymdeimlo**

Estynwn ein cydymdeilad dwysaf gyda theulu Wyn (Henry) Morris, Rock House, Llandysilio. Tad Melissa a Gwyneth, tadcu Tomos a Celt, brawd i Aeres Williams, David a Huw Morris.
....hefyd â theulu Roslyn Gibby gynt o Llandysilio.

**Dyweddio**



Llongyfarchiadau mawr i Daniel Roblin ac Alice Bacon ar eu dyweddiad ar 25ain o Fedi.

**Ordeinio**



Yn mis Gorffennaf, cafodd Sharon Edge o Faenclochog ei hordeinio yn offeiriad yng Nghadeirlan Tŷ Ddewi, gyda phedwar cydweithwr arall, mewn seremoni a gyflwynwyd gan Archesgob Cymru, Y Parchedig Andrew John. Ymunodd aelodau o'i theulu â hi yn Eglwys Gadeiriol a oedd yn orlawn, ac yn dilyn bu te prynhawn i ddathlu yn Nhafarn Sinc.

Mae Sharon yn Gurad Cynorthwyol yn ardal Gweinidogaeth Arberth a Dinbych y Pysgod (LMA). Mae yn gwasanaethu ar y Sul cyntaf a'r trydydd o'r mis yn Eglwys St Tysilio, yn Llandysilio, gyda'r Parchedig Kingsley Taylor.

**Hanner Marathon Caerdydd**



Llongyfarchiadau i Ellie a Scott Robinson ar gwbwlhau Hanner Marathon Caerdydd yn ddiweddar.

**Ymddeol**

Dymuniadau da a phob lwc i Emrys, Ann a Rhian Murrow i'r dyfodol, ar ôl ymddeol o Westy Nantyffin. Diwedd cyfnod.

**Pwyllgor Neuadd Llandysilio**

Diolch yn fawr iawn i bawb a ddaeth i gefnogi ein bore coffi elusenol i godi arian tuag at Tŷ Hafan, Ward Cancr Llwynhelyg, Ysgol Brynconin a Chylch Meithrin Llandysilio fore Sadwrn ac i bawb fu'n helpu. Roedd yn fore llwyddiannus iawn gyda digon o sbri. Bydd y cyfanswm a godwyd yn rhifyn mis nesaf.

*Bydd ein Pwyllgor nesaf ar Tachwedd 13eg. Croeso i chi ymuno a ni.*

**CYLCH MEITHRIN a CHYLCH TI a FI LLANDYSILIO**

mudiad meithrin

Lleoliad: Neuadd Llandysilio, Llandysilio, Clunderwen. SA66 7SY

Ar agor: Dydd Llun, Mawrth, Mercher, Iau a Gwener



9.00yb - 12.00

Clwb brecwast: 8.15 - 9.00

I blant o 18 mis oed

Arweinydd: Liz Lewis

Ffôn: 07760 135392



Ti a Fi - dydd Mercher 12.00 - 1.30

***Byddwn yn medru cymryd plant o 18 mis oed ar ôl y Nadolig***

Rhif elusen Cofrestredig 1089716

**Diolch**
Dymuna Eilyr Thomas ddiolch i Betsan ac Owen am drefnu dathliad arbennig yn ddiweddar ymysg teulu, cymdogion a nifer o'i disgyblion a hithau'n dathlu ei phenblwydd yn 80 oed.
Diolch am yr holl gyfarchion a'r rhoddion.

# NEWYDDION BLAENCONIN

**TAITH GERDDED CYMDEITHAS CAPELI BRO HYWEL DDA**

Yn dilyn diwrnodau o law cafwyd bore sych yn Llanboidy ar gyfer y daith gerdded flynyddol, a braf oedd gweld cefnogwyr y gymdeithas yn ymgasglu o flaen Neuadd y Farchnad yn brydlon.
Cyn cychwyn ar y daith, cafwyd gair o weddi gan y Parchedig Guto Llywelyn ac yna, aeth y cwmni llon i gwblhau'r daith. Hyfryd oedd clywed y sgwrsio a'r chwerthin iach.




Cynrychiolwyd Blaenconin gan Eryl, Roy a Huw

### Mewn Cydymdeimlad

Trist oedd clywed am farwolaeth Roslyn Gibby, Royal Exchange gynt, ac estynnwn ein cydymdeimlad i'w deulu a'i gydnabod.

### Nadolig yn Ntwetwe


Mae Carden Nadolig **Ratifa** ar y ffordd o Flaenconin i Ntwetwe. Oherwydd y pellter a lleoliad y pentref, bu rhaid anfon ein dymuniadau gorau i Ratifa ar ddechrau mis Hydref.
Yn ystod mis Medi, derbyniwyd adroddiad am flwyddyn Ratifa yn yr ysgol a braf oedd gweld ei bod yn ffyddlon ac yn weithgar ym mhob agwedd o fywyd ei chymuned. **Nadolig Llawen Ratifa** !




Daeth aelodau a chefnogwyr Mudiad Ffermwyr Ifanc Sir Benfro i Flaenconin ar y 15fed o Hydref i gynnal eu hoedfa Ddiolchgarwch blynyddol. Braf oedd cael eu croesawi i'n plith. Cafwyd eitemau gan swyddogion Clwb Clunderwen a darlleniad gan Lywydd y Sir.

### Cylchfan Newydd Penblewin

Mae nifer wedi bod yn gofyn am gynllun newydd ar gyfer Cylchfan Penblewin.




## Anturiaeth yr Arfordir

Mae'r anturiaethwyr wedi cymryd camau mawr yn ystod yr wythnosau diwethaf ac erbyn hyn, wedi cyrraedd traeth Angle. Wedi gadael goleudy'r Santes Ann, arweiniwyd yr anturiaethwyr i Thorny Pit cyn cyrraedd Bae'r Felin gan gofio am Harri yn glanio ar y traeth ar ei ffordd i Bosworth. Ymlaen i West Blockhouse, Glanfa Watwick a Thraeth y Castell. Braf oedd cyrraedd pentref Dale ... cyn y glaw !
O Dale, ymlaen i Lanisan yn Rhos (St Ishmaels). Ar hyd y daith gwelwyd ambell enw anghyfarwydd ac wedi gadael eglwys y plwyf, diddorol a difyr oedd cyrraedd Butt's Bay. Daeth y daith fer i ben yn Sandy Haven.

Wedi dychwelyd i Sandy Haven rhai diwrnodau yn ddiweddarach, aeth yr anturiaethwyr ymlaen yn agos i bentref Herbrandston (pentref sydd yn 'Ddwbl Diolchgar'). Gwelwyd caer o gyfnod Napoleon a glanfa LNG. Wedi cerdded o dan y pibellau nwy, cyrraedd Gelliswick a phentref Hakin a gorffen ar y cei yn Aberdaugleddau. Wedi gadael y dref, aeth yr anturiaethwyr dewr ymlaen i Blackbridge, Newton Noyes, y Bedol a glanfa Nwy y Ddraig. Ymlaen ar hyd y ffordd o Hazelbeach i Neyland cyn croesi'r bont a gorffen yn Noc Penfro !
Mwy i ddod mis nesaf !

## *Beirdd Blaenconin*

Diolch i'r Beirdd am ganu unwaith eto.

**Anturiaeth yr Arfordir – 19**

Nos Iau, a'r gwynt yn rhuo
a golau'r haul yn wan,
Am chwech y tri yn gadael
Goleudy Santes Ann.
Simneiau tal Valero
yn codi fry i'r nen,
a'r gwynt yn sgubo'r penrhyn
gan rannu gwallt ein pen.
I Thorny Pit yn gyntaf,

Ymlaen a'r tri ar daith,
Bae'r Felin – cofio Harri
yn glanio ar y traeth.
Ac yma, ym Mae'r Felin,
daeth Harri un prynhawn
i ddechrau'r daith o Bosworth -
lle hanesyddol iawn.
West Blockhouse, Glanfa Watwick
a chysgod rhag y gwynt ;
y tonnau'n taro'r creigiau
a'r meirch yn mynd ynghynt.
Ymlaen a'r tri yn gyflym
yn ffyddiog ac mewn ffydd
ar hyd y llwybr troellog
yng ngolau gwan y dydd.
I Castle Beach, ac yna,
rhaid esgyn tua'r nen,
daeth Pentref Dale i'r golwg,
Taith arall nawr ar ben.

### Anturiaeth yr Arfordir – 20

Mae'n chwech o'r gloch nos Wener,
Ar ôl y glaw a'r gwynt,
Aeth tri o'r Anturiaethwyr
I ddechrau ar eu hynt.

O Dale i dir Llanisan
Ar noson braf a chlir
A gwrysg y tato newi
Yn addo cnwd cyn hir.

Great Castle Head yn gyntaf,
Dim sôn am dywydd gwael,
A'r gwenith gwyn yn dawnsio
Yng ngwres pelydrau'r haul.

Butts Bay – a'r caeau llafur
Yn dawnsio dawns yr haf,
Ymlaen i Sandy Haven
A'r diwedd – dyna braf !

### Anturiaeth yr Arfordir – 21

Gorffennaf y Nawfed ar hugain,
Yr amser – chwe munud i naw,
A'r cerddwyr, o draeth Sandy Haven
Yn dechrau cyn dyfod y glaw.
A phentref Herbrandston yn agos,
A'r 'Munns' – beth yw'r ystyr sai'n
siŵr,
Ond gwelwyd hen Gaer oes Napoleon
Gwers hanes – y Tŵr yn y dŵr.
Ymlaen ar y daith yn hamddenol
Yng nghwmni y llanw a'r lli,
A 'DANGER – KEEP OUT' oedd y
neges
Ar dir Cwmni Nwy LNG.
Pibellau yn estyn eu bysedd
i'r aber am ganllath a mwy,
a'r hylif o diroedd y dwyrain
yn troi nôl i danwydd a nwy.
I Gelliswick, agos i Hakin,
A Hakin yn agos i'r dŵr,
Yn Aberdaugleddau cael paned
I ddathlu y diwedd mae'n siŵr.

### Trefn Oedfaon

**Dydd Sul, 5ed Tachwedd**
Bore Coffi Ratifa - 10.00 y bore
Oedfa Gymun -10.30 y bore

**Dydd Sul, 12fed Tachwedd**
Sul y Cofio - 10.30 y bore

**Dydd Sul, 19 Tachwedd**
Oedfa Bregeth - 10.30 y bore

## CLUNDERWEN

### Penblwydd hapus yn 80 oed



Penblwydd hapus i Lois Rees yn 80 oed ar Medi 21ain

### Hanner Marathon Caerdydd

Llongyfarchiadau mawr i Aled Hughes ar gwbwlhau yr Hanner Marathon yn Caerdydd.

### Clwb Ffermwyr Ifanc Clunderwen


Llongyfarchiadau i'r Clwb Ffermwyr Ifanc ar eu llwyddiant yng nghyfarfod blynyddol y sir. Enillwyd cwpan E R Phillips, a rygbi iau.

### Sefydliad y Merched Clunderwen a Llandysilio


Yn ein cyfarfod mis yma, trafodwyd syniadau ar gyfer rhaglen y flwyddyn nesaf. Yna, yn dilyn daeth Di i ddangos ei gwaith crefft gyda ffelt. Gwahanol fathau o ffeltio, ffeltio gwlyb, cwiltio a celf lloerig. Diddorol iawn a diolch iddi. Bydd ein Cyfarfod blynyddol mis nesaf, ar Dachwedd 6ed yn neuadd Clunderwen. Croeso i chi ymuno â ni.

Bwydydd Fferm Bwlchygroes
Masnachwyr Amaethyddol Annibynnol
- Bwyd anifeiliaid
- Ffensio
- Nwyddau ar gyfer y fferm
Am bris cystadleuol ffoniwch:
01239 698226
neu Eleri 07827 854679



Pridd wedi sgrinio ar gyfer blodau, llysiau neu lawnt, hefyd gwasanaeth hurio treilar


Gwasanaeth hurio cloddiwr 3 tunnell
Cludiant am ddim hyd at 6 milltir
GWION JENKINS
Ffôn: 01994 419222
Symudol: 07787 826574

# Aelwyd Hafodwenog - Cwpan y Byd 2023

Yn 2024, bydd Aelwyd Hafodwenog yn dathlu ei phen-blwydd yn 45 mlwydd oed. Ers ei sefydlu yn 1979, rydym yn amcangyfrif bod tua 2,000 o blant a phobol ifanc wedi bod yn aelodau o'r Aelwyd ac yn sicr, mae criw 2023 wedi gadael ei stamp ar hanes ein Aelwyd bach ni.

Ar noson olaf Eisteddfod yr Urdd Sir Gâr 2023, daeth y cyhoeddiad hollol annisgwyl mai Aelwyd Hafodwenog oedd wedi ei ddewis i gynrychioli'r Urdd a Chymru fel rhan o ddathliadau Cwpan Rygbi'r Byd yn Ffrainc ym mis Medi 2023. Lyon oedd lleoliad ein taith ar benwythnos gêm Cymru ac Awstralia ond roedd y gwaith perfformio wedi cychwyn cyn i ni deithio, gan berfformio i'r tîm yng ngwesty'r Vale yn Llantrisant cyn iddyn nhw adael am Ffrainc, ar raglen Jonathan ar S4C, a rhai diwrnodau cyn i ni deithio cynhaliwyd noson Bon Voyage i'r gymuned yn Nhafarn Beca, Trelech er mwyn i deulu a ffrindiau'r aelodau cael y cyfle i glywed ein repertoire a dymuno siwrne saff i'r aelodau.

Yn ystod y diwrnodau cyn y gêm allan yn Lyon, cafwyd y cyfle i berfformio i'r wasg genedlaethol gan gynnwys Newyddion S4C a BBC Wales News cyn cael y cyfle i ymlacio ychydig cyn diwrnod y gêm!

Roedd diwrnod y gêm yn un brysur iawn i ddweud y lleiaf gydag 8 o berfformiadau wedi eu trefnu! Roedd 4 slot perfformio gennym yn y "fanzone" swyddogol yn Place Bellacour yn hen dref Lyon a chafwyd y cyfle i berfformio i gannoedd o gefnogwyr o bedwar ban byd yno. Cafwyd y cyfle i gwrdd â George Bower, chwaraewr rhyngwladol yr All Blacks, a recordio eitem ar gyfer sianel teledu Seland Newydd ble roedd George yn esbonio am y cysylltiad rhwng Cymru a Fiji, a'r emyn Calon Lân. Yna, roeddwn yn perfformio mewn cinio swyddogol gyda chyn-chwaraewyr a chefnogwyr Cymru cyn symud i leoliad y perfformiadau olaf - sef gwesty tîm Cymru. Yno, roedd y chwaraewyr yn paratoi ar gyfer yr her oedd yn eu hwynebu a theuluoedd y chwaraewyr yna yn eu cefnogi. Dyma'r lleoliad ble cafwyd moment mwyaf emosiynol y daith.

Wrth i ni berfformio i deuluoedd y chwaraewyr yn ardd y gwesty gan ganu "Unwch Bawb" (trefniant newydd o World in Union a gafodd ei gyfansoddi yn arbennig i ni gan Richard Vaughan, cerddor o Rydaman) gwelwyd y chwaraewyr yn dod i'r ffenestri er mwyn gwylio'r perfformiad gyda rhai ohonyn nhw'n hongian mas o'r ffenestri er mwyn ein clywed ni'n well! Diolch byth nad oedd neb wedi cwympo mas a chael anaf cyn y gêm ond roedd hon yn foment arbennig iawn i ni fel Aelwyd a gwelwyd mwy nag un deigryn gan aelodau (ac arweinydd!) y côr wrth i ni gyd sylweddoli'r fraint ac anrhydedd yr oeddwn wedi ei dderbyn trwy gael y cyfle i fynychu'r daith arbennig hon. Yna, ymlaen at y stadiwm yn llawn cyffro a gwladgarwch i weiddi a chanu'r bois ymlaen wrth iddyn nhw drechu Awstralia mewn record sgôr o 40-6! Coron ar ddiwedd diwrnod hollol, hollol arbennig a diwrnod na fyddwn ni byth yn anghofio!




Cyn teithio nôl i Gymru fach, ac ar ddiwrnod olaf y daith, cynhaliwyd nifer o weithdai canu, dawnsio a chlocsio gyda phobol ifanc ddifreintiedig a phobol ifanc oedd mewn perygl o gael eu heithrio o'r system addysg yn ardal Lyon. Roedd hyn yn brofiad arbennig arall i'r aelodau ac roedd yr arweinyddion yn prowd iawn o barodrwydd a brwdfrydedd yr aelodau i gyd-ganu a chyd-ddawnsio gyda'r bobol ifanc Ffrengig.

Roedd hon yn daith na fyddwn ni byth yn ei anghofio, gyda 45 o aelodau ac arweinyddion yn derbyn profiadau nad oedd unrhyw aelod arall o'r Aelwyd wedi eu profi yn ystod ein hanes. Mae'n gyd-ddigwyddiad llwyr fod 45 o aelodau wedi teithio i Ffrainc wrth i ni hefyd paratoi ar gyfer y dathliadau 45 mlwydd oed blwyddyn nesaf - ein rhif lwcus ni mae'n rhaid! Y gobaith yw bydd ein Aelwyd fach ni yn parhau i ffynnu o dan adain arweinyddion y dyfodol, a phwy a ŵyr, efallai bydd cyd-ddigwyddiad arall a 100 o aelodau yn teithio tramor ar ein pen-blwydd yn 100 yn 2079!



Y CARDI BACH, BACH
Papur Bro Dyffryn Taf
CARIAD O BETH CARDI BACH

# YSGOL BECA

**Bore coffi Macmillan**

Hoffwn ymestyn diolch enfawr i bawb a fynychodd ein bore coffi Macmillan ar y 29ain o Fedi. Bu'r Cyngor Ysgol yn brysur yn helpu gyda'r trefniadau. Roedd yn fore llawn coffi, cacennau a chwerthin. Codwyd £112.50 i'r elusen o ganlyniad i'ch cyfraniadau.

**Bendibwmbwls**





Bu dosbarth Carn Gyfrwy wrth eu bodd yn ffilmio rhaglen newydd sbon 'Bendibwmbwls' i CYW! Crewyd wal gerddoriaeth newydd i'r ardal allanol. Bydd y rhaglen ar y teledu ym mis Ionawr!

**Gwersi nofio**

Ers dechrau'r tymor mae disgyblion blynyddoedd 3, 4, 5 a 6 wedi bod yn mwynhau mynychu gwersi nofio yng Nghanolfan Hamdden Crymych. Mae pawb wedi bod yn dyfalbarhau ac o ganlyniad wedi gwneud cynnydd da yn barod.

Traws Gwlad

Teithiodd rai o ddisgyblion blynyddoedd 3-6 i Barc Gwledig Pembre ar gyfer cystadleuaeth traws gwlad y sir. Braf gweld y disgyblion yn cynrychioli'r ysgol ac yn gwneud eu gorau glas.

**Llwyddiant ym myd rygbi**



Llongyfarchiadau i Carys Phillips, disgybl blwyddyn 6, am gael ei dewis i gynrychioli tîm ysgolion dan 11 Sir Gaerfyrddin. Rydym yn falch iawn ohonot ti ac yn dymuno pob lwc!

# YSGOL BRYNCONIN

**Llais y Disgybl**

Buodd y plant yn brysur iawn yn canfasio ac yn pleidleisio dros diwrnodau cyntaf y tymor newydd. Cynhaliwyd etholiadau dosbarth ar gyfer ein Senedd Ysgol, Cabinet Iaith a Diwylliant, Cabinet Cyfathrebu a Digidol, Cabinet Iechyd a Lles, Criw Ffrindiau Ffyddlon a Chriw Darllenwyr Dawnus. Llongyfarchiadau enfawr i bawb cafodd eu hethol ac edrychwn ymlaen i glywed am eu syniadau da ac i gydweithio gyda'n haelodau er mwyn parhau i ddatblygu a gwella Ysgol Brynconin.

**Datblygu sgiliau llafar Cymraeg - Clybiau Ar Ôl Ysgol**



Rydym wedi ail ddechrau ar ein Clybiau Ar Ôl Ysgol; Clwb Chwaraeon, Clwb Digidol/Lego, Clwb Creadigol.

**Sgiliau**. Pwrpas ein Clybiau yw sicrhau bod y plant yn parhau i ddatblygu eu sgiliau, yn arbennig eu sgiliau llafar Cymraeg, a hynny mewn sefyllfaoedd gwahanol tu allan i'r dosbarth. Eleni rydym wedi dechrau Clwb Coginio ac mae'r plant wrth eu boddau yn coginio a phrofi sgiliau newydd. Diolch i'r holl staff am arwain y clybiau hyn gan sicrhau bod cyfleoedd gwahanol yn cael eu rhoi i'r disgyblion.

**Gweithdy Newid Hinsawdd**



Diolch i gwmni West Wales Housing am drefnu gweithdy 'Newid Hinsawdd' gyda Dosbarth Rhuddem ar fore Mawrth, 19eg o Fedi. Cafodd y plant amser wrth eu bodd yn dysgu neges bwysig am ofalu am y Ddaear.

**Ennill Gwobr Arian Siarter Iaith**

Llongyfarchiadau enfawr i Ysgol Brynconin am lwyddo i ennill Gwobr Arian Siarter Iaith. Rydym fel ysgol yn falch iawn ar y llwyddiant yma gan ein bod yn parhau i weithio'n galed i hybu Cymreictod yn yr ysgol a thu allan yn y gymuned leol. Rydym yn trefnu heriau Cymraeg misol i deuluoedd ac yn rhannu brawddeg Cymraeg ar ein tudalen Twitter a Facebook yn wythnosol i'r gymuned gyfan. Diolch yn arbennig i Miss Davies ac aelodau Cabinet Iaith a Diwylliant am eu gwaith caled yn paratoi ar gyfer yr arolwg.

**Twrnament Rygbi'r Urdd**



Llongyfarchiadau i dîm rygbi yr Ysgol am chwarae'n dda yn nhwrnament rygbi'r Urdd Dydd Iau, 5ed o Hydref yng Nghlwb Rygbi Arberth. Cystadleuaeth 'taclo' ydoedd ac roedd y bechgyn wedi gwneud yn dda. Diolch unwaith eto i Mr Andy Cotter am hyfforddi'r plant ac i Miss Davies am ofalu amdanynt adeg y gystadleuaeth.

# YSGOL HAFODWENOG

**Diwrnod Archarwyr**



Ein thema am y tymor yw Archarwyr. Ar ddydd Gwener, Medi 8fed i ni wedi gwisgo i fyny ar gyfer ein diwrnod Archarwyr. Roedd pawb wedi joio mas draw.

*Gan Elin-Fflur*

**Croeso ffrindiau bach**

Mae dwy gwningen fach wedi cyrraedd Ysgol Hafodwenog. Mae nhw'n hoffi cael cwtsh gyda ni.
Mae'r cwningod yn hoffi chwarae yn ei cawell newydd.

*Gan Seamus a Mia*

**Wyau Maes Ysgol Hafodwenog**



Yma yn Ysgol Hafodwenog rydyn ni wedi dechrau gwerthu wyau maes ein hunain. Cost chwe wy yw £1.50

*Gan Llinos*

**Cwrdd Diolchgarwch**

Ar Ddydd Mercher, Hydref 25ain mae ein cwrdd diolchgarwch blynyddol yng Nghapel y Graig Trelech am 2 o'r gloch y prynhawn. Dewch i joio ac i ddiolch gyda ni.

*Gan Elain*

**Rygbi Tag yr Urdd**





Ar y trydydd o Hydref cymerodd disgyblion Cae Glas ran yn nhwrnamaint Tag yr Urdd. Cynhaliwyd y twrnament yng nghaeau Clwb Rygbi Quins Caerfyrddin yn Abergwili. Roedd nifer fawr o ysgolion Sir Gâr yn cystadlu. Cyrhaeddodd tim merched blwyddyn 5 a 6 y rownd derfynol a daethant yn ail yn y gystadleuaeth. Roedd hyn yn lwyddiant ysgubol i'r merched. Hefyd daeth tim cymysg blynyddoedd 3 a 4 yn drydydd yn eu cystadleuaeth. Llwyddiant arbennig o dda.

*Gan Cadi*

**Prynhawn Coffi Macmillan**

Cynhaliwyd prynhawn Coffi Macmillan ar brynhawn Iau, 28ain o Fedi yn neuadd Ysgol Gynradd Hafodwenog. Daeth tyrfa fawr i gefnogi'r achos. Cafwyd cacennau blasus gan Angela Samson a Caroline Thompson, yn wir roedd digon o gacennau i lenwi boliau pawb. Gyda chymorth disgyblion blwyddyn 6 codwyd £316.90 yn prynhawn arbennig hwnnw! Diolch i'r gymuned a'r rhieni am ein cefnogi.

*Gan Anest*

**Apêl Morocco**

Penderfynodd Cyngor Ysgol a Chyngor Iechyd a Lles yr ysgol i godi arian i Morocco yn dilyn y daeargryn arswydus a fu yno. Cafodd y disgyblion gyfle i wisgo dillad coch a gwyrdd sef lliwiau baner Morocco. Codwyd £80.

*Gan Sara*

# YSGOL BRO BRYNACH

**Tîm Rygbi Rhanbarth Sir Gaerfyrddin**

Llongyfarchiadau i Gwenllian Dent a Jac Owen am gael eu dewis ar gyfer tîm Rygbi Rhanbarth Sir Gaerfyrddin. Pob lwc ir ddau ohonynt dros y misoedd nesaf!

**Trawsgwlad**



Cafwyd noson llwyddianus iawn ym Mharc Gwledig Penbre ar Fedi'r 21ain ar gyfer cystadleuaeth trawsgwlad ysgolion Sir Gâr a drefnwyd gan Harriers Caerfyrddin a'r Cylch. Braf oedd gweld cymaint o gynrychiolaeth o ysgol fach wledig yn bresennol. Am y tro cyntaf eleni roedd yna wobrau ar gyfer ysgolion bach o dan 100 o blant. Enillodd timoedd blwyddyn 5 a 6 tariannau ar gyfer y nifer o bwyntiau uchaf ac enillodd yr ysgol tarian am y fwyaf o bwyntiau ar gyfer yr ysgolion dan 100 o blant. Llongyfarchiadau mawr i chi gyd!

**Bore Coffi Macmillan**



Ar y 29ain o Fedi cawsom fore coffi llwyddiannus yn yr Ysgol er mwyn codi arian i elusen Macmillan. Bu'r Cyngor Ysgol

**H THOMAS a'i FAB**


**Peiriannydd Amaethyddol**



Partiau, Gwasanaeth
Tractorau Newydd ac Ail-law
Ffôn: 01994 240349 / 240770

**D. E. PHILLIPS**
**a'i Feibion**
**TANYBRYN, GLANDWR**
***Trydanwyr***
***Siop Radio a Theledu***
**CRYMYCH**
**Setiau ar werth**
Ffôn: 01994 419361 / 01239 831589

**Y GARREG LWYD**
Heol Salem, Sancler
***Cartref Oddi Cartref***



Ffoniwch y rheolwraig
01994 230855

yn brysur yn helpu trefnu'r raffl a gweini'r cacennau. Hoffwn ddiolch i bawb am eu cefnogaeth a'u cyfraniadau, codwyd £400 i'r elusen.

**Pontio Ysgol Bro Preseli**
Buodd criw o ddisgyblion blwyddyn 6 ar ddiwrnod pontio yn Ysgol Bro Preseli er mwyn cael blas ar fywyd yn yr ysgol Uwchradd. Cafodd y plant ddiwrnod arbennig yn derbyn ystod o wersi a thaith o amgylch yr ysgol.

**Cystadleuaeth Rygbi TAG yr Urdd**


Merched Bl. 5 a 6

Bu dau dîm Tag rygbi cymysg blwyddyn 3 a 4 a thîm tag rygbi merched blwyddyn 5 a 6 yn cystadlu yn nhwrnament yr Urdd ar gaeau'r Cwins, Abergwili. Gwnaeth y ddau dîm tag rygbi cymysg Bl.3 a 4 yn dda iawn gyda'r tîm cyntaf yn ennill dwy gêm allan o bedwar. Llongyfarchiadau mawr i dîm tag rygbi merched blwyddyn 5 a 6 yr ysgol a lwyddodd i ennill cystadleuaeth rygbi'r Urdd Rhanbarth Gorllewin Myrddin. Byddan nhw'n symud ymlaen i gystadlu yng Nghŵyl Ysgolion Gynradd yn Aberystwyth ym mis Mai.

**Llysgenhadon**
Llongyfarchiadau mawr i'r pedwar aelod o ddosbarth Cynin sydd wedi cael eu dewis yn Llysgenhadon Efydd eleni. Da iawn i Toby, Bella, Hannah a Dylan. Byddant yn gyfrifol am annog ymarfer corff ac arwain sesiynau cadw'n heini i ddisgyblion yr ysgol trwy gydol y flwyddyn.

**Ymwelwyr**
Braf oedd croesawu'r Parchedig Guto Llywelyn a ddaeth atom i arwain gwasanaeth cyntaf mis Hydref. Roedd y plant wrth eu bodd yn gwrando ar ddwy stori o'r Beibl yn ystod y gwasanaeth.

**Cystadleuaeth Byd o Heddwch**
Ar ddechrau mis Medi cafodd y gân 'Byd o Heddwch' sy'n benthyg tôn yr anthem rygbi mawr 'World in Union' gan Gustav Holst, eu rhyddhau gan Shân Cothi a Trystan Llŷr Griffiths. Diben y gân yw i gefnogi tîm Cymru yn nhwrnament Cwpan Rygbi'r Byd yn Ffrainc. Ar ôl rhyddhau'r gân galwyd ar ysgolion Cymru i anfon clip yn egluro mewn llai na 15 eiliad beth mae geiriau'r gân, yr alaw a'r canu yn golygu iddynt.

Ers hynny, bu criw Siarter Iaith yr ysgol yn trafod syniadau gwahanol ar gyfer creu'r clip ac wedi bod yn brysur iawn yn ffilmio. Gallwch weld y clip ar wefannau cymdeithasol yr ysgol.

# YSGOL GRIFFITH JONES

**Gwersi Nofio**
Cafodd plant Blwyddyn 3, 4 a 5 ddechrau prysur i'r flwyddyn ysgol drwy fynychu gwersi nofio yn y Ganolfan Hamdden yng Nghaerfyrddin.

**Clybiau**
Mae'r clybiau ar ôl ysgol eisoes wedi dechrau i Fl.3 – 6. Mae dros gant o blant wedi ymuno â'r clybiau canlynol – celf a choginio, gemau bwrdd, dawnsio gwerin, chwaraeon, clwb digidol a chanu cŵl. Hefyd cynhelir sesiynau hyfforddi pêl-rwyd a rygbi yn wythnosol.

**Traws gwlad**
Bu'r tîm traws gwlad yn cystadlu ym Mhencampwriaeth Traws Gwlad Sir Gâr ym Mharc Gwledig Penbre, ynghyd â 40 o Ysgolion Cynradd eraill. Gwnaed ymdrech arbennig gan bawb!


Bl.6 wedi cwblhau cwrs beicio diogel

**Ymweliadau**
Aeth criw mawr o gerddorion Blwyddyn 3 -6 yr ysgol ar daith i ysgol QE High i fwynhau cyngerdd cerddorol


PREN DA
Gwaith coed o bob math
**Dafydd Makepeace**
Fferm y Cross
Llandysilio
Clunderwen
Ffôn 07967 220289






arbennig a drefnwyd gan dim athrawon offerynnol y Sir. Bu'r plant wrth eu bodd yn gwrando ar y gerddorfa yn chwarae clasuron o fyd y ffilmiau.

Aeth dosbarthiadau Arthur, Gwenllian, Hywel, Rhiannon ac Olwen ar drip i Gastell Henllys i ddysgu am y Celtiaid. Cafodd bawb hwyl a sbri yn teithio nôl mewn amser i fyw bywyd fel un o'r Celtiaid am y diwrnod.

Aeth ein Llysgenhadon Chwaraeon, sef Lola, Ava, Iwan a Mason i'r Pod yng Nghaerfyrddin i fwynhau prynhawn o hyfforddiant gyda Actif Sir Gâr. Bydd hyn yn eu helpu wrth arwain sesiynau ffitrwydd gyda'r disgyblion iau.


Trip i Castell Henllys

**Ymwelwyr**

Daeth criw Stwnsh S4C i'r Ysgol i ffilmio gyda chriw o blant Blwyddyn 6.

Hyfryd oedd croesawu Ficer Sarah o'r gymuned atom i gynnal gwasanaeth gyda'r Adran Iau a bydd hi'n dod atom bob wythnos yn ystod y tymor.

**Rygbi**



Bu 3 tîm o blant Blwyddyn 4 yn cymryd rhan yng nghystadleuaeth TAG rygbi'r Urdd yn ogystal â 2 dîm TAG rygbi merched o Flwyddyn 5 a 6 yn Abergwili.

Da iawn i bob tîm am eu hymdrech arbennig.

Llongyfarchiadau i Hunter Phillips, Luke Williams, Iwan Morris a Jac Bowen. am gael eu dewis ar gyfer tîm rygbi'r Rhanbarth.

---

Menter Gorllewin Sir Gâr

**Siaradwyr Newydd:**

Bu ein sesiynau yn ystod diwedd yr Hydref i ddathlu Diwrnod Shwmae Sumae. Hyfryd oedd dathlu'r achos yn ein sesiynau Coffi a Chlonc, Paned a Sgwrs, Paned a Phapur a Shwmae a Siarad.

## Sesiynau stori:

Mae ein sesiynau stori yng Nghaerfyrddin ac yn San Clêr yn parhau bob pythefnos. Yng Nghaerfyrddin ar ddydd Llun yn Llyfrgell Caerfyrddin am 10:30am ac yn Llyfrgell San Clêr, Y Gât am 1:30pm ar ddydd Iau. Ymunwch â ni yn y sesiynau stori yma. Cysylltwch gyda gwyneth@mgsg.cymru i gofrestru neu am wybodaeth pellach.

**Clybiau Drama:**

Mae'r Fenter a Theatr Genedlaethol Cymru yn cynnig dau glwb drama i blant yr ardal, Clwb Joio Drama ar gyfer blynyddoedd 1-3 ar nos Fercher o 5-5.45pm ac i flynyddoedd 4-6 o 6-7pm. Mae'r clybiau yn cael eu cynnal yn y Stiwdio, Theatr y Lyric, Caerfyrddin. Cyfle i blant dysgu sgiliau, magu hyder a mwynhau. I gofrestru, cysylltwch gydag betsan@mgsg.cymru. Diolch i Theatrau Sir Gâr am y croeso cynnes i'r theatr yn wythnosol.

**Clwb Rhedeg:**

Rydym wedi penderfynu cychwyn Clwb Rhedeg yng Nghaerfyrddin yn addas ar gyfer pob lefel ffitrwydd. Mae'n gyfle i gymdeithasu ac i redeg trwy gyfrwng y Gymraeg. Gwnaeth y clwb ailgychwyn ar ôl saib yr Haf, a daeth nifer fawr at ei gilydd i fwynhau'r sesiwn. Mi fydd y clwb yn digwydd yn wythnosol a byddwn yn cwrdd am 6yh ger eglwys San Pedr ac ni chodir tâl i fynychwyr. Mae angen bod yn 18+ i fynychu. I gofrestru, cysylltwch gyda betsan@mgsg.cymru.

**Cyfryngau Cymdeithasol:**

Am y diweddaraf, ewch i'n cyfryngau cymdeithasol:
Facebook - Menter Gorllewin Sir Gar
Trydar - @MenterGSG • Instagram - @MenterGSG
E-bost - ymholiad@mgsg.cymru • Ffôn - 01239 712934.

DENNIS JONES A'I DEULU
SAER COED
PEINTIWR AC ADDURNWR
TREFNWR ANGLADDAU
Maesawelon
Efailwen
Ffôn: 01994 419561

Bwyty'r Roadhouse Restaurant
Cylchfan Heol Llanboidy, Hendygwyn
Agor bob dydd o 8y.b. - 10y.h.
*Brecwast, cinio a bwyd gyda'r nos*
*Arlwyo ar gyfer unrhyw achlysur arbennig*
Ffôn: 01994 241193

EUROPA
FFASIYNAU GWALLT
Heol y Pentre, San Clêr
*Mae yna groeso i'r gwŷr hefyd*
*Wendy a Dawn*
Ffôn: 01994 230462



# Bysiau Cwm Taf

*Gwyliau o safon am brisiau cystadleuol*



## Teithiau 2023

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwener 3ydd Tachwedd | TWRCI A THINSEL YN DYFFRYN GWY (Wye Valley) | £345 | 4 Diwrnod |
| Gwener 10fed Tachwedd | UCHELWYDD A GWIN YN BABBACOMBE | £295 | 4 Diwrnod |
| Llun 13eg Tachwedd | CELYN AC UCHELWYDD YN LLANDUDNO | £515 | 5 Diwrnod |
| Gwener 17eg Tachwedd | MARCHNADOEDD NADOLIG - CHELTENHAM a GLOUCESTER | £245 | 3 Diwrnod |
| Sul 19eg Tachwedd | TWRCI A THINSEL NADOLIG YN SCARBOROUGH | £510 | 6 Diwrnod |
| Llun 27ain Tachwedd | TWRCI A THINSEL YN Y BELGRAVE SANDS TORQUAY | £440 | 5 Diwrnod |
| Gwener 1af Rhagfyr | Ymunwch gyda Santa ar TREN Y GOLEUNI NADOLIG YN PAIGNTON | £335 | 4 Diwrnod |
| Sul 3ydd Rhagfyr | Taith i CERNYW, St Agnes, Penzance a Falmouth | £330 | 4 Diwrnod |
| Llun 4ydd Rhagfyr | CRACER NADOLIG CERNYWEG YN LOOE | £410 | 5 Diwrnod |
| Gwener 8fed Rhagfyr | PENWYTHNOS PARATOI AR GYFER Y NADOLIG YN LLUNDAIN | £290 | 3 Diwrnod |
| Sadwrn 30ain Rhagfyr | DATHLU'r FLWYDDYN NEWYDD YN WATERFORD IWERDDON | £490 | 4 Diwrnod |

## Teithiau 2024

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwener 12fed Ionawr | Penwythnos yn yr hên Ffefryn - WESTON SUPER MARE | £280 | 4 Diwrnod |
| Gwener 19eg Ionawr | Aduniad Cwsmeriaid a Ffrindie Bysiau Cwm Tâf yn TORQUAY | £260 | 4 Diwrnod |
| Gwener 2ail Chwefror | Penwythnos yn Gwesty'r Queens, Paignton | £280 | 4 Diwrnod |
| Gwener 12fed Chwefror | Bournemouth yn ymweld a'r New Forest a Beaulieu | £395 | 5 Diwrnod |
| Iau 22ain Chwefror | Penwythnos Rygbi Iwerddon v Cymru -Gwesty'r Talbot , Stillorgan | £465 | 4 Diwrnod |
| Iau 22ain Chwefror | Gêm Rygbi Iwerddon v Cymru - Gwesty'r Bonnington, Dulun | £465 | 4 Diwrnod |
| Iau 22ain Chwefror | Penwythnos Rygbi Iwerddon v Cymru - ENNISCORTHY | £385 | 4 Diwrnod |
| Iau 29ain Chwefror | Mordaith Ddychmygol yng Ngwesty'r Tynedale, Llandudno | £510 | 5 Diwrnod |
| Gwener 1af Mawrth | Ymunwch â Clive a'l Ffrindie i ddathlu Gwyl Dewi yn Caernarfon | £250 | 3 Diwrnod |
| Llun 7fed Mawrth | GOGONEDDAU ARFORDIR CERNYW - ST AGNES | £395 | 5 Diwrnod |
| Llun 11fed Mawrth | BOGNOR REGIS a'r "SOUTH DOWNS" | £395 | 5 Diwrnod |
| Gwener 15fed Mawrth | PENWYTHNOS YN BABBACOMBE | £305 | 4 Diwrnod |
| Gwener 22ain Mawrth | LOOE ac ARFORDIR CERNYW | £305 | 4 Diwrnod |
| Llun 1af Ebrill | YNYS WYTH - Isle of Wight. Gwesty Trouville SANDOWN | £445 | 5 Diwrnod |
| Sul 7fed Ebrill | SCARBOROUGH a Rhostir Gogledd Swydd Efrog | £535 | 6 Diwrnod |
| Gwener 12fed Ebrill | Gwesty'r Belgrave Sands TORQUAY | £325 | 4 Diwrnod |
| Mawrth 16eg Ebrill | TAITH DDIRGEL MIS EBRILL i ??????????? | £365 | 4 Diwrnod |
| Gwener 19eg Ebrill | PENWYTHNOS YN EFROG | £335 | 4 Diwrnod |
| Llun 22ain Ebrill | Yr EIDAL -Y Dolomites Dramatig a'r Llynnoedd Disglair | £995 | 8 Diwrnod |
| Gwener 26ain Ebrill | BLAS O GYMRU YN Y TYNEDALE, LLANDUDNO | £415 | 4 Diwrnod |
| Llun 29ain Ebrill | DEWCH i DDARGANFOD DINAS LERPWL ar ei gorau | £535 | 5 Diwrnod |
| Gwener 3ydd Mai | DANTEITHION PAIGNTON ac ARFORDIR HARDD DYFNAINT | £340 | 4 Diwrnod |
| Llun 6ed Mai | NORFOLK - TRENNAU, LLONGAU a SANDRINGHAM | £565 | 5 Diwrnod |
| Sadwrn 11fed Mai | TEITHIO O AMGYLCH YNYS JERSEY | £795 | 7 Diwrnod |
| Iau 16eg Mai | ?????? PENWYTHNOS O DDIRGELWCH I RHYWLE ????? | £535 | 5 Diwrnod |
| Llun 20fed Mai | DEWCH i DDARGANFOD RHYFEDDODAU WEYMOUTH | £430 | 5 Diwrnod |
| Gwener 24ain Mai | SIOE FLODAU CHELSEA | £395 | 3 Diwrnod |
| Gwener 31ain Mai | (Newydd) NORWY - TELEMARK a'r FJORDS (Newydd) | £1,995 | 12 Diwrnod |

**Am fanylion llawn, ffoniwch am ein Llyfryn Gwyliau**

**Bysiau Cwm Taf ar gyfer eich holl anghenion - ffoniwch a gadewch y gweddill i ni**

**01994 240908 / www.tafvalleycoaches.co.uk**

# PENBLWYDD HAPUS




Penblwydd Hapus iawn i Llew Murray, Maesyffynnon ac i'w gyfnither o Gaerdydd, Ella Tudor-James a oedd yn dathlu ei penblwyddi yn Mis Medi. Cariad Mawr wrth y teulu i gyd xx



Penblwydd hapus iawn i Gwen Rees, Tymawr, Crymych a fydd yn dathlu ei phenblwydd yn 6 oed ar Tachwedd y 30ain. Cariad mawr wrth mam, dad, Megan, Lleucu a'r teulu i gyd xx



Penblwydd Hapus iawn i Wil Tomos Wyn Pearce a fydd yn flwydd oed ar Hydref 27ain. Cariad mawr oddi wrth Nain a Dadcu a'r teulu i gyd yn Efailwen.




Penblwydd Hapus i Osian Jones yn 3 blwydd oed. Mae Osian yn fab i Llyr a Sioned Jones. Ŵyr Delyth a Michael Roblin, Glynty.















Wenfro
O! Gwyn ein byd - a gwyrdd!

# Parti Calan Gaeaf

**CYSTADLEUAETH** Cyfle i un darllenydd lwcus ennill llyfr o gyfres Wenfro




**Anfonwch eich ateb at wenfro.cymru@gmail.com Dyddiad cau: 28/11/23**

Ateb cystadleuaeth Trên Tywod:
Gwymon - 13, broc môr - 6, cregyn - 9, cerrig glan môr - 28.

Mae Wenfro yn gynllun addysgol cynhwysfawr ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Cyhoeddir y gyfres gan Gomer/Atebol. **www.wenfro.cymru**

Ⓗ y testun a'r lluniau: Llinos Mair © 2023

**Bydd enw enillydd y gystadleuaeth yn cael ei gyhoeddi cyn hir.**

Jones Login
Teithiau o Safon
Quality Coach Travel

**Login**
**Hendygwyn**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA34 0UX**
**Ffôn: 01437 563277**
**www.joneslogin.co.uk**




| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Hydref** | | |
| Maw 24 | **Llandudno - Gwesty'r Tynedale** | 5* |
| **Tachwedd** | | |
| Sad 18 | *Sioe Gerdd Sister Act, CMC a* Bae Caerdydd | 1 |
| Sad 25 | Canolfan Arddio y'r Hen Rheilffordd (Siopa Nadolig) Three Cocks ger Aberhonddu | 1 |
| Llun 27 | **Twrci a Tinsel - Torquay (Gwesty'r Headland)** | 5* |
| **Rhagfyr** | | |
| Gwe 8 | **Nadolig Chatsworth a Chaer** | 3 |
| Sad 9 | Sioe Olau 'Luminate' Gardd Fotaneg Cymru | 1 |
| Sad 16 | *Sioe Gerdd - Aladdin, CMC a* Bae Caerdydd | 1 |
| Sad 23 | **Gwyliau Nadolig - Gwesty'r Headland, Torquay** | 5* |
| **Ionawr 2024** | | |
| Mer 24 | *Sioe Ddawns - Giovanni Pernice, NDS* | 1 |
| **Chwefror 2024** | | |
| Sad 3 | *Sioe Gerdd - Jesus Christ Superstar, CMC* | 1 |
| Sad 10 | **Torquay** | 5* |
| Llun 26 | *Rick Astley, Caerdydd* | 1 |
| **Ebrill 2024** | | |
| Llun 15 | **Cernyw ac Ynysoedd Scilly** | 5* |
| Sad 20 | *Sioe Gerdd - An Officer & a Gaentleman, CMC* | 1 |
| Gwe 26 | **Gwyl Corau Meibion Cymru, Neuadd Albert, Llundain** | 3 |

| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Mai 2024** | | |
| Iau 2 | **Ynysoedd Shetland, Royal Deeside a Pitlochry** | 9* |
| Sad 4 | *Sioe Gerdd Pretty Woman, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |
| Sad 11 | **Amgueddfa Sain Ffagan** | 1 |
| Llun 13 | **Blodau Sir Norfolk** | 5* |
| **Mehefin 2024** | | |
| Llun 10 | **Gwesty Warner - Holme Lacy** | 5* |
| Mer 19 | **Diwrnod y Merched, Royal Ascot** | 3 |
| **Gorffennaf 2024** | | |
| Sad 27 | *Sioe Gerdd - Wizard of Oz, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |
| Maw 30 | **Llandudno** | 5* |
| **Awst 2024** | | |
| Llun 5, Mer 7 a Gwe 9 | Eisteddfod Genedlaethol | 1 |
| Gwe 23 | Diwrnod y Merched, Cae Ras Ffoslas | 1 |
| **Medi 2024** | | |
| Llun 2 | **'All Features Great & Smal** | 5* |
| Sad 7 | *Grease, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |
| Llun 9 | **'Picture Perfect Suffolk'** | 5* |
| Sad 14 | Canolfan Treftadaeth Gwyr | 1 |
| Llun 16 | **'Sussex Bygone Years' a'r 'Repair Shop'** | 5* |
| Llun 23 | **Deintyddion Northumbria** | 5* |
| **Hydref 2024** | | |
| Sad 5 | **ABBA Voyage a Windsor** | 2 |

**Llyfryn 2024 ar gael yn y Gymraeg ar-lein ac mewn print!!**

**Pob ymadawiad o 4 diwrnod + yn cynnwys gwasanaeth drws i ddrws - Amodau'n berthnasol!**


*parhad o dudalen 35* **Merched dan 12**

Medi 29ain -colli erbyn Valley Vixens o 4 Cais i 5.

**Merched Dan 14**

Medi 29ain - ennill erbyn Merched Mynydd Mawr 54-24. Sgoriwyd 4 cais yr un gan Mali Nicholls a Cadi Bryan a cais yr un i Celyn Thomas a Charlotte Williams. Llwyddodd Celyn Thomas gyda 2 drosiad.

Dyma restr gemau y tîm dan 14 dros yr wythnosau nesaf :-

Hydref:

15fed - Gwyl Rygbi, lleoliad i'w gadarnhau

20fed - I ffwrdd erbyn y Wildcats

29ain - adref erbyn y Wiberod

Tachwedd 24ain - i ffwrdd yn erbyn y Sharks

*Suzanne Davies*



Tîm dan 14


CEFINVAUGHAN
Ffotograffiaeth / Photography
Ffotograffiaeth ar gyfer bob achlysur
Photography for all occasions
Cefin Vaughan
07788233327
cefinvaughan@hotmail.com
hapus i siarad Cymraeg!

**GAREJ WYN CYF**
Uned 1 Parc Gwynfryn
Crymych, Sir Benfro
SA41 3RG
MOT
Gwasanaeth •Atgyweirio
Teiars • Batris
Ffôn: 01239 831300
Ffacs: 01239 831853

Gwasanaeth Trydanol RMD Cyf
Robert W. R. Morgan
ECA
CYMERADWYEDIG GAN NICEIC
17 Trevaughan Lodge
Hendygwyn ar Daf
SA34 0QF
Ffôn: 01994 240946 - Symudol 07966 019281
e-bost: robrmd28@gmail.com

# Clwb Rygbi Hendygwyn

**Tîm Cyntaf**
Bu mis Medi yn fis cymysglyd ar y cyfan.

Medi 23ain - Bu rhaid i ni ohirio'r gêm gwpan yn erbyn Ystradgynlais (a rhoi'r gêm iddynt) oherwydd bod gymaint o anafiadau gyda'r garfan.
30ain - Colli erbyn Porth Tywyn 10-39, cais yr un i Scott Newton a Geraint Jones.

Hydref 6ed - Ennill 45 -12 yn erbyn Tŷ Ddewi yn rownd chwarteri Plât Sir Benfro. Cais gosb ac un cais yr un i Zac France Millar, Will Evans, Rhys Nicholas, Morgan Lewis, Geraint jones a Owyn Griffiths. Llwyddodd Geraint Jones gyda 4 trosiad.

**Menywod**
Medi 24ain - ennill erbyn Cobra 54-24. Dau gais yr un i Cadi Wiiliams, Macey Bowen, Ffion James a Marged Williams ac un cais yr un i Cara Fflur Davies a Ceulyn Davies. Llwyddodd Cadi Williams gyda 2 drosiad.

Hydref 8fed - colli adref 5 - 68 erbyn Llandaf mewn gêm gwpan. Cais i Cadi Williams. *parhad ar dudalen 34*

# Clwb Pêl-droed Llanboidy

**Tymor 2023-24**
Mae tymor 2023-24 yn parhau i Glwb Pêl-droed Llanboidy.

**Tîm 1af**
Dros y mis diwethaf, dim ond tair gêm mae'r tîm cyntaf wedi chwarae, ac yn anffodus tair colled. Er hyn, mae digon o gemau yn dod fyny, gyda'r gobaith o gipio ambell fuddugoliaeth. Llongyfarchiadau hefyd i Gethin Scourfield ar gael ei ddewis i gynrychioli tîm y Sir ar gyfer gemau yn erbyn chwaraewyr adran Aberystwyth diwedd mis Medi. Yn anffodus cafodd y gêm ei ohirio ond y gobaith fydd i ail drefnu'r gêm.

Isod mae canlyniadau'r gemau gan gynnwys sgorwyr goliau'r Clwb:

16.09.23 - Felinfach 3-1 Llanboidy (Gethin Scourfield)
23.09.23 - Tregaron 3-2 Llanboidy (Jac Griffiths + Gethin Scourfield)
07.10.23 - Ffostrasol 9-0 Llanboidy

**2il Dîm**
Pedair gêm mae'r 2il dîm wedi chwarae dros y mis diwethaf gan golli dwy, ennill un ac un gêm gyfartal. Isod mae'r canlyniadau a'r sgorwyr.

16.09.23 - Llanboidy 1-5 Llanon (Will Abbott)
23.09.23 - Llambed 6-2 Llanboidy (Frazer Wyatt + Jason Reynolds)
30.09.23 - Bargoed 2-2 Llanboidy (Lewis Thompson + Will Abbott)
07.10.23 - Llanboidy 5-2 Pencader (Dion Morgan, Ashley Herbert, Lewis Thompson, Chris Bowen, Will Abbott)

Rydym o hyd yn edrych am chwaraewyr newydd i'r Clwb - Bydd ymarferion yn cael eu cynnal tan y Nadolig yn Bloomfield, Arberth rhwng 20.00-21.00yh.

**Adran Iau**
Dros yr haf rydym wedi dechrau ymarferion adran iau'r Clwb. Croeso cynnes i unrhyw un rhwng 5-16 oed i ymuno a'r timau dan 6, dan 8, dan 10, dan 12 a 13+ sydd gyda ni. Braf oedd gweld tîm dan 12 yn chwarae ei gêm gyntaf erioed yn ddiweddar ar gaeau chwarae Blaenwaun.

Am fwy o wybodaeth, dilynwch neu cysylltwch gyda ni ar ein cyfryngau cymdeithasol. *Rhodri Lewis*



Tîm dan 12 y Clwb cyn eu gêm gyntaf erioed gyda'i hyfforddwr, Steve Evans.



Yr ail dîm yn eu cit newydd - diolch i Peredur James am noddi.

Tomos Rees
NEW HOUSE GARAGE
Atgyweirio a M.O.T.
Ffôn: 01994 230041

HAYDN LLOYD BSc / DMS - Cyfarwyddwr
ALLPUMP SERVICES
ARBENIGWYR MEWN PWMPS FFYNNON A TYLLAU, TRINIAETH CARFOSIAETH, SYSTEMAU DŴR BRWNT A SOLAR
Fferm Ffynnonlwyd
Llangynin
San Clêr
SA33 4LD
Ffôn: 01994 448310
Ffacs: 01994 448693
e.bost: enquiries@allpump.co.uk

Phil a Siôn Harries
SEIRI COED
Efail Fach
Henllan Amgoed
Ffôn:
01994 240857



# CHWARAEON

## Clwb Rygbi San Clêr



Ar ôl sicrhau ein buddugoliaeth gyntaf erbyn Tycroes ar y 9fed o Fedi, fe deithiom ni i Lanbedr Pont Steffan ar yr 16eg o Fedi ar gyfer ein 3ydd gêm gynghrair, yn benderfynol o godi rhai pwyntiau ac i dalu'r pwyth yn ôl ar ôl colli yn ei herbyn dair gwaith tymor diwethaf. Llanbed oedd pencampwyr yr adran llynedd a chawsom ddyrchafiad gyda nhw. Roedd y gêm, fel sy'n digwydd bob amser yn erbyn Llanbed, yn ornest galed ond fe ddechreuodd y Seintiau yn dda wrth chwarae i fyny'r allt yn yr hanner cyntaf. Bu'r gêm yn frwydr o amddiffynfeydd gyda'n ceisiau yn dod gan Dafydd Waters a Brandon Davies. Trosodd Dan Griffiths 2 gais a llwyddodd gyda dwy gic  gosb i sicrhau buddugoliaeth ac i godi hyder y garfan, yn erbyn tim cryf sydd wastod yn anodd ei trechu. Sgôr terfynol, Llanbed 14 - San Clêr 20.

Wedi i ni gael wythnos bant (bye yn y cwpan) fe wnaethom groesawu Abergwaun, (oedd ar frig y gynghrair, wedi iddynt ennill 3 gem mas o 3), i Barc Griffith Jones ar y 30ain o Fedi. Roedd y bois yn benderfynol o sicrhau buddugoliaeth arall, yn dilyn ei buddugoliaeth wych yn erbyn Llanbed, ar brynhawn gafodd ei effeithio'n fawr gan dywydd gwael. Chwaraeodd y blaenwyr yn dda gan sicrhau sylfaen cryf ar gyfer gêm gafodd ei reoli'n llwyr ganddynt, mewn amodau anodd. Roedd y Seintiau yn arwain 14 - 0 ar yr egwyl gyda chais gan Dafydd Waters a 3 cic gosb o droed dibynadwy Dan Griffiths. Llwyddodd Dan gydag un cic gosb arall yn yr ail hanner a gwnaeth y tîm amddiffyn yn gadarn drwy weddill yr ail hanner i sicrhau buddugoliaeth wych yn erbyn y tîm oedd ar y brig. Rydym yn gydradd ail gyda Casllwchwr yn y gynghrair erbyn hyn, ar ôl chwarae 4 gêm. Diolch i noddwyr y gêm sef Allpump Services Ltd a bois Llanddowror a diolch hefyd i noddwr y bêl sef Mace Interiors.

Bydd ein gêm nesaf ar y 14eg o Hydref, i ffwrdd erbyn Athletig Caerfyrddin ac yna gêm gartref erbyn Nantgaredig ar yr 21ain o Hydref. Dinbych y Pysgod fydd ein gwrthwynebwyr adref yn rownd nesaf Cwpan URC ar yr 28ain o Hydref.

Chwaraeodd ein tîm datblygu ei gêm gyntaf yng Nghynghrair Llanelli & Disrtict ar y 30ain o Fedi, yn erbyn tîm cryf Castell Newydd Emlyn. Gwnaeth y bechgyn chwarae'n dda, ond colli wnaethant 29 - 10. Mae ein hieuenctid wedi chwarae 3 gêm, gyda cholled, gêm gyfartal a gêm ardderchog yn erbyn Llangennech, lle wnaethant golli reit ar ddiwedd y gem  33 - 35. Mae'r fuddugoliaeth gyntaf rownd y gornel fechgyn, daliwch ati gyda'r gwaith da.

Rydym wastod yn chwilio am fusnesau i noddi gemau, cysylltwch gyda Eirian Page ar 07831102195 am fwy o wybodaeth

*Gwyndaf Williams*







*Lluniau: Chris Rees*